Department for Energy Security & Net Zero

**3-8 Whitehall Place**
**London**
**SW1A 2AW**
**+44 020 7215 5000**
**energyinfrastructureplanning@energysecurity.gov.uk**
**www.gov.uk/desnz**

**Cyf: EN010137**

Paul Carter
Mona Offshore Wind Limited
Chertsey Road
Sunbury On Thames
Middlesex
TW16 7BP
Y Deyrnas Unedig

4 Gorffennaf 2025

Annwyl Mr Carter,

**DEDDF CYNLLUNIO 2008**

**CAIS AM GYDSYNIAD DATBLYGU AR GYFER FFERM WYNT ALLTRAETH MONA**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Rwyf wedi cael cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ("yr Ysgrifennydd Gwladol") i roi gwybod i chi bod adroddiad yr Awdurdod Archwilio dyddiedig 16 Ebrill 2025 wedi cael ei ystyried. Roedd yr Awdurdod Archwilio'n cynnwys 5 arolygydd archwilio: Caroline Jones, Julie de-Courcey, Graham Hobbins, Jessica Powis a Jason Rowlands. Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio Archwiliad o'r cais a gyflwynwyd ar 21 Chwefror 2024 ("y Cais") gan Mona Offshore Wind Limited ("y Ceisydd") am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ("y Gorchymyn") o dan adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008") ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona ("y Datblygiad Arfaethedig"). Cafodd y cais ei dderbyn ar gyfer Archwiliad ar 21 Mehefin 2024. Dechreuodd yr Archwiliad ar 16 Gorffennaf 2024 a daeth i ben ar 16 Ionawr 2025. Cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol Adroddiad yr Awdurdod Archwilio ar 16 Ebrill 2025.

1.2. Ar 12 Mai 2025, anfonodd yr Ysgrifennydd Gwladol lythyr yn gofyn am wybodaeth am nifer o faterion. Darparwyd ymatebion gan bartïon perthnasol. Ar 29 Mai 2025, gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr holl Bartïon â Diddordeb i roi sylwadau ar yr ymatebion a gafwyd mewn ymateb i'r llythyr dyddiedig 12 Mai. Cafwyd chwe ymateb gan Bartïon â Diddordeb. Ar 30 Mai 2025, 5 Mehefin 2025 a 25 Mehefin 2025, gofynnwyd am wybodaeth bellach gan bartïon penodol.

1.3. Byddai'r Gorchymyn, fel y gwneir cais amdano, yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer gorsaf gynhyrchu alltraeth sy'n cynnwys [ER 1.3.7]:

<u>Ar y môr</u>

- Hyd at 96 tyrbin gwynt;
- Pedwar Platfform Is-orsaf ar y Môr;
- Sylfeini ar gyfer tyrbinau gwynt a'r platfformau is-orsaf ar y môr;

- Ceblau rhyng-aráe sy’n cysylltu’r tyrbinau gwynt unigol â’i gilydd ac â’r platfformau is-orsaf ar y môr;
- Ceblau allforio ar y môr;
- Gosod deunyddiau i atal erydu sylfeini a cheblau, lle bo angen.

Ar y tir

- Pyrth cysylltu trosiannol (yn cysylltu’r ceblau ar y môr a’r ceblau ar y tir);
- Ceblau allforio ar y tir;
- Is-orsaf ar y tir;
- Cysylltiad o'r is-orsaf ar y tir ag Is-orsaf bresennol y National Grid ym Modelwyddan;
- Gwaith lliniaru tirwedd.

1.4. Mae'r Ceisydd hefyd yn ceisio pwerau caffael gorfodol a meddiannu dros dro, sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn drafft a gyflwynwyd gyda'r Cais [ER 9.5.1 et seq].

1.5. Ochr yn ochr â'r llythyr hwn ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio, mae copi o Adroddiad Canfyddiadau a Chasgliadau'r Awdurdod Archwilio a’i Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol (“Adroddiad yr Awdurdod Archwilio”). Mae canfyddiadau a chasgliadau'r Awdurdod Archwilio wedi'u nodi ym Mhenodau 3 - 7 yr Adroddiad yr Awdurdod Archwilio, ac mae crynodeb Adroddiad yr Awdurdod Archwilio o'r casgliadau a'r argymhellion ym Mhennod 8. Mae pob cyfeiriad wedi'i rifo, oni nodir yn wahanol, yn cyfeirio at baragraffau yn Adroddiad yr Awdurdod Archwilio [“ER *.*.*”].

## 2. Crynodeb o Adroddiad ac Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio

2.1. Mae'r prif faterion a ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad y daeth yr Awdurdod Archwilio i gasgliadau arnynt ynghylch yr achos dros gydsyniad datblygu wedi'u nodi yn Adroddiad yr Awdurdod Archwilio o dan y penawdau cyffredinol canlynol:

- Angen;
- Opsiynau eraill;
- Y dirwedd ac elfennau gweledol;
- Defnydd tir ac amodau'r tir;
- Sŵn a dirgryndod;
- Traffig a thrafnidiaeth;
- Ecoleg a bioamrywiaeth ar y tir;
- Risg llifogydd ac ansawdd dŵr;
- Y forwedd ac adnoddau gweledol;
- Mordwyaeth a morgludiant;
- Seilwaith a gweithgareddau eraill ar y môr;
- Mamaliaid morol;
- Adareg ar y môr;
- Pysgodfeydd masnachol;
- Pysgod a physgod cregyn;
- Ecoleg fenthig islanw a rhynglanw;
- Prosesau ffisegol;
- Yr amgylchedd hanesyddol;
- Buddiannau hedfanaeth ac amddiffyniad sifil a milwrol;
- Elfennau economaidd-gymdeithasol;
- Y newid yn yr hinsawdd ac allyriadau a nwyon tŷ gwydr;

- Materion eraill;
- Effeithiau cronnus a chydgysylltiedig;
- Dyluniad da.

2.2. Argymhellodd yr Awdurdod Archwilio y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cydsyniad ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig a gwneud y Gorchymyn ar y ffurf a argymhellir yn Atodiad E Adroddiad yr Awdurdod Archwilio [ER 11.5.1].

2.3. Ac eithrio fel y nodir fel arall yn y paragraffau isod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chanfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yr Awdurdod Archwilio fel y nodir yn Adroddiad yr Awdurdod Archwilio, a'r rhesymau dros benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r rhai a roddir gan yr Awdurdod Archwilio i gefnogi ei gasgliadau a'i argymhellion.

## 3. Crynodeb o Benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

3.1. Gan fod y Datblygiad Arfaethedig yn orsafoedd cynhyrchu tyrbinau gwynt alltraeth mewn dyfroedd cyfagos i Gymru hyd at derfynau tua'r môr y môr tiriogaethol a fyddai â chapasiti cynhyrchu o fwy na 350MW, mae'n perthyn i a15(3B) o Ddeddf 2008, yn bodloni'r diffiniad o Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a nodir yn a14(1) o Ddeddf 2008 ac yn gofyn am orchymyn cydsyniad datblygu yn unol ag a31 o Ddeddf 2008 [ER 1.1.3].

3.2. Mae adrannau 104 a 105 o Ddeddf 2008 yn darparu ar gyfer y dull sydd i'w ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau pan fydd un neu ragor o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn cael effaith (a104) a phan na fydd unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol yn cael effaith (a105). Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1, EN-3 ac EN-5 yn cael effaith mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig, ac o ganlyniad penderfynir arno o dan ddarpariaethau a104 o Ddeddf 2008. Mae adran 104(2) o Ddeddf 2008 yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth benderfynu ar gais, yn rhoi sylw i unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol. Mae is-adran (3) yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu ar y cais yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol ac eithrio i'r graddau y mae un neu ragor o is-adrannau (4) i (8) yn gymwys.

3.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y cydbwysedd cynllunio cyffredinol ac, am y rhesymau a nodir yn y llythyr hwn, mae wedi dod i'r casgliad bod y manteision cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn drech na'r niwed a nodwyd, ac felly y dylid rhoi cydsyniad datblygu.

3.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu o dan adran 114 o Ddeddf 2008 i wneud, gydag addasiadau, Orchymyn yn rhoi cydsyniad ar gyfer y cynigion yn y Cais. Mae'r llythyr hwn yn ddatganiad o'r rhesymau dros benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 116 o Ddeddf 2008 a'r hysbysiad a'r datganiad sy'n ofynnol o dan reoliadau 31(2)(c) a (d) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017.

3.5. Wrth wneud y penderfyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau cyfreithiol perthnasol ac nid yw wedi ystyried unrhyw faterion nad ydynt yn berthnasol i'r penderfyniad.

## 4. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'r Cais

4.1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried Adroddiad yr Awdurdod Archwilio a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, gan gynnwys sylwadau a gafwyd ar ôl i Archwiliad yr Awdurdod Archwilio ddod i ben ac ymatebion i'r Ysgrifennydd Gwladol a ddarparwyd yn

ystod y cam gwneud penderfyniad. Cafodd 90 o Sylwadau Perthnasol eu gwneud mewn perthynas â'r Cais. Roedd yr Awdurdod Archwilio hefyd wedi ystyried Sylwadau Ysgrifenedig, ymatebion i gwestiynau a chyflwyniadau llafar a wnaed yn ystod yr Archwiliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, gwybodaeth amgylcheddol fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, a'r holl faterion eraill yr ystyrir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol fel y bo'n ofynnol o dan adran 104 o Ddeddf 2008, gan gynnwys polisi perthnasol a nodir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1, EN-3 ac EN-5.

4.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Datganiadau Polisi Cenedlaethol 2024, yn unol â'r darpariaethau trosiannol a nodir yn adran 1.6 o EN-1, wedi cael effaith ar gyfer ystyriaeth yr Awdurdod Archwilio o'r Cais hwn. Ar 24 Ebrill 2025, lansiwyd ymgynghoriad ar y diwygiadau drafft i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1 ac EN-3; er nad yw'r fersiynau 2025 hyn o'r Datganiadau'n cael effaith ar gyfer y Cais hwn, maent yn gallu bod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol ym mhroses gwneud penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

4.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ystyried y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol diwygiedig o fis Chwefror 2025 ymlaen, a ryddhawyd ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 ar 13 Rhagfyr 2024 ac mae'n amlinellu llwybr at system pŵer glân. Ystyriodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cyhoeddiadau hyn a chanfu nad oes unrhyw beth ynddynt a fyddai'n ei arwain i ddod i benderfyniad gwahanol ar y Cais.

4.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio a'r pwysoliadau y mae wedi'u priodoli yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Opsiynau eraill – Rhoddodd y Ceisydd ddigon o fanylion am opsiynau eraill rhesymol a rhesymau dros ei ddewis [ER 3.2.25];
- Traffig a Thrafnidiaeth – Pwysoliad negatif bach [ER 4.4.27];
- Ecoleg a Bioamrywiaeth ar y Tir – Pwysoliad negatif bach [ER 4.5.38];
- Risg Llifogydd ac Ansawdd Dŵr – Pwysoliad niwtral [ER 4.6.45];
- Mamaliaid Morol – Pwysoliad negatif cymedrol [ER 8.3.15];
- Pysgodfeydd Masnachol – Pwysoliad negatif cymedrol [ER 5.6.44];
- Pysgod a Physgod Cregyn – Pwysoliad negatif bach [ER 5.7.24];
- Ecoleg Fenthig Islanw a Rhynglanw – Pwysoliad negatif bach [ER 5.8.40];
- Prosesau Ffisegol – Pwysoliad niwtral [ER 5.9.36];
- Yr Amgylchedd Hanesyddol – Pwysoliad negatif bach [ER 6.1.77];
- Elfennau Economaidd-gymdeithasol – Pwysoliad positif cymedrol [ER 6.3.57];
- Y Newid yn yr Hinsawdd ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr - Pwysoliad niwtral [ER 6.4.48];
- Materion Eraill – Pwysoliad niwtral [ER 6.5.73];
- Effeithiau Cronnus a Chydgysylltiedig – Pwysoliad niwtral [ER 6.6.3];
- Dyluniad da – Pwysoliad niwtral [ER 6.7.58].

4.5. Mae'r paragraffau isod yn nodi'r materion lle mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ragor o sylwebaeth a dadansoddiad i'w hychwanegu y tu hwnt i'r hyn a nodir yn Adroddiad yr Awdurdod Archwilio, gan gynnwys y materion hynny y gofynnwyd am ragor o wybodaeth amdanynt.

Yr angen am y Datblygiad Arfaethedig

4.6. Daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gwneud cyfraniad ystyrlon i fodloni'r angen brys am ynni gwynt ar y môr a throsglwyddo i system carbon is, fel y sefydlwyd gan y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni [ER 3.1.15]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon, er yr ystyriaeth o faterion sy'n benodol i'r prosiect, bod y ddadl gyffredinol dros yr angen am y Datblygiad Arfaethedig yn gryf iawn o ran bodloni'r angen brys am ynni carbon isel, y gallu i gyflawni o fewn amserlen resymol i ateb y galw cynyddol am ynni, a sicrhau diogelwch y cyflenwad. Felly, mae'r Awdurdod Archwilio'n priodoli pwysoliad positif iawn i'r angen am y Datblygiad Arfaethedig yn y cydbwysedd cynllunio [ER 3.1.16].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.7. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â barn yr Awdurdod Archwilio ac yn credu bod yr angen am y Datblygiad Arfaethedig wedi'i sefydlu, ac yn nodi'r cyfraniad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ei wneud i'r angen a'r targedau sefydledig ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy carbon isel. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r effeithiau olion ar ffermydd gwynt eraill ar y môr a'r effaith ar ostyngiadau cronnus mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel y trafodir ym mharagraff 4.72 y llythyr hwn. Ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, er bod posibilrwydd o ostyngiad yng nghapasiti rhai prosiectau, at ei gilydd mae mwy o gapasiti cynhyrchu trydan glân gyda'r datblygiad arfaethedig. Felly, daw'r Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad nad yw hyn yn effeithio ar yr achos angen yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol, nac ar yr angen am y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn priodoli pwysoliad positif sylweddol i'r angen am y Datblygiad Arfaethedig o blaid gwneud y Gorchymyn.

Y dirwedd ac elfennau gweledol – gwaith ar y tir

4.8. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon bod y Ceisydd wedi cynnal asesiad priodol o'r dirwedd a'r elfennau gweledol mewn perthynas â'r gwaith ar y tir, a gan eithrio'r effeithiau ar amwynder gweledol a drafodwyd, mae wedi nodi'n ddigonol effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar dderbynyddion gweledol a'r dirwedd [ER 4.1.75]. O ganlyniad i sefydlu ac aeddfedu'r gwaith plannu arfaethedig ar y dirwedd, mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y byddai effeithiau arwyddocaol o'r fath yn lleihau'n sylweddol erbyn blwyddyn 15 ar gyfer y rhan fwyaf o dderbynyddion. Mae hyn yn eithrio golygfannau 2 a 3 lle mae'r Awdurdod Archwilio'n credu y byddai'r effeithiau'n dal yn arwyddocaol ym mlwyddyn 15. Mae'r Awdurdod Archwilio'n cytuno â chasgliad y Ceisydd na fyddai effeithiau cronnus ychwanegol ar dderbynyddion gweledol o'r Datblygiad Arfaethedig [ER 4.1.77]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael yn briodol â'r mater o ddyluniad sensitif seilwaith ynni a bod yr hierarchaeth lliniaru wedi cael ei defnyddio [ER 4.1.78]. Mae'r Awdurdod Archwilio hefyd yn fodlon y byddai mesurau lliniaru a rheoli ar gyfer osgoi a lleihau effeithiau niweidiol ar y dirwedd ac elfennau gweledol, lle bo hynny'n rhesymol ac yn briodol, yn cael eu sicrhau'n ddigonol drwy'r Gorchymyn [ER 4.1.79].

4.9. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y gellir cyflawni'r ddyletswydd a nodir yn adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 [ER 4.1.80]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â'r darpariaethau a nodir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1, EN-3 ac EN-5 mewn perthynas â materion tirwedd ac elfennau gweledol sy'n ymwneud â'r gwaith arfaethedig ar y tir. Ar ben hynny, o ystyried y byddai'r effeithiau niweidiol sylweddol gweddilliol mewn perthynas â materion tirwedd ac elfennau gweledol yn gyfyngedig ac yn lleol, mae'r Awdurdod Archwilio'n priodoli pwysoliad cymedrol i'r materion hyn mewn perthynas â gwneud y Gorchymyn [ER 4.1.81].

4.10. Mae'r Awdurdod Archwilio'n nodi bod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026) yn nodi ei bwriad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru ar sail Tirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar hyn yn 2024. Dywedodd yr Awdurdod Archwilio y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddymuno cael cadarnhad ynghylch statws y Parc Cenedlaethol arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ei fod yn fodlon bod modd cyflawni unrhyw ddyletswyddau statudol a osodir ar gyrff cyhoeddus yn foddhaol [ER 4.1.82].

4.11. Ar 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol am ddiweddariad gan Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) ar y bwriad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

4.12. Ar 22 Mai 2025, ymatebodd Gweinidogion Cymru gan ddweud eu bod wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru fwrw ymlaen â rhaglen waith i ystyried dynodi parc cenedlaethol newydd. Cadarnhawyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio tuag at ymgynghoriad statudol ar Orchymyn Dynodi yn ystod hydref 2025, a bydd y canlyniad yn sail i benderfyniad terfynol ar wneud y gorchymyn. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu cadarnhau a fydd angen galw ymchwiliad cyhoeddus cyn penderfynu a ddylid cadarnhau, diwygio neu wrthod y gorchymyn.

4.13. Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 22 Mai 2025, gan ddweud "*Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu yn 2023 ac ymgynghoriad cyhoeddus ar Ardal Bosib yn 2024, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio tuag at ymgynghoriad statudol ar Orchymyn Dynodi yn ystod hydref 2025. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn sail i benderfyniad terfynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar wneud y Gorchymyn a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru, ynghyd â dogfennau ategol, i'w gadarnhau. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod a fydd angen i Weinidogion Cymru ystyried yr angen i alw ymchwiliad cyhoeddus cyn penderfynu a ddylid cadarnhau, diwygio neu wrthod y gorchymyn*".

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.14. Gan nodi'r ymatebion a ddaeth i law, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth am statws y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig i wneud penderfyniad ar y Datblygiad Arfaethedig. Gan nad oes cadarnhad ar hyn o bryd y bydd y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddynodi, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad oes unrhyw beth pellach iddo ei ystyried, na chafodd ei ystyried gan yr Awdurdod Archwilio, mewn perthynas â'r effeithiau ar y derbynnydd posib hwn o ran y dirwedd ac elfennau gweledol.

4.15. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio ar y mater hwn ac mae wedi rhoi pwysoliad negatif cymedrol i'r dirwedd ac elfennau gweledol yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

<u>Defnydd tir ac amodau'r tir</u>

4.16. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon bod asesiad y Ceisydd wedi rhoi sylw llawn i effeithiau posib y Datblygiad Arfaethedig ar ddefnydd tir ac amodau'r tir, a'i fod yn cyd-fynd ag adrannau 5.11 a 5.16 o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 [ER 4.2.218].

4.17. Argymhellodd yr Awdurdod Archwilio y dylid diwygio'r Cod Ymarfer Adeiladu i gynnwys ymrwymiad i ddefnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol i wneud y gwaith arfaethedig rhwng

pwyntiau A a B yn naliadau tir Evans. Argymhellodd yr Awdurdod Archwilio hefyd, ar ôl ymchwilio ymhellach, os oedd rhesymau rhesymol a chadarn pam nad oedd hyn yn bosib, yna rhaid cynnwys dulliau adeiladu eraill yn y Cod Ymarfer Adeiladu terfynol a gyflwynir i'r awdurdod cynllunio perthnasol, gyda thystiolaeth o unrhyw ddull(iau) adeiladu diwygiedig arfaethedig a drafodwyd gyda'r perchnogion tir a/neu eu cynrychiolwyr [ER 4.2.127].

4.18. Yn amodol ar y diwygiad a argymhellir i'r Cod Ymarfer Adeiladu [REP7-087], mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y byddai'r mesurau sydd i'w cynnwys yn fersiwn derfynol y gyfres o gynlluniau rheoli sy'n rhan o'r ddogfen amlinellol honno ac sydd wedi'u sicrhau gan Ofyniad 9 Gorchymyn drafft terfynol y Ceisydd [AS-036], yn golygu bod tir amaethyddol yn cael ei adfer yn foddhaol yn gyffredinol ac na fyddai unrhyw effaith bellach ar y rhan fwyaf o ddaliadau amaethyddol yn ystod y camau gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu, ac eithrio'r 11.9 hectar a fyddai'n cael ei golli yn ystod ei oes weithredol, gan gynnwys 1.7 hectar o'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas [ER 4.2.219].

4.19. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y byddai unrhyw effeithiau eraill ar ddefnydd tir ac amodau'r tir a nodwyd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn unigol neu ar y cyd â phrosiectau eraill yn cael eu lliniaru a'u rheoli'n foddhaol [ER 4.2.221]. Daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad y byddai effeithiau ar ddefnydd tir ac amodau'r tir yn cario pwysoliad negatif cymedrol yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 4.2.222].

4.20. Gan nodi'r diwygiad i'r Cod Ymarfer Adeiladu sydd wedi'i argymell gan yr Awdurdod Archwilio, ar 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd ddarparu fersiwn diwygiedig o'r Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol heb ragfarn.

4.21. Ar 23 Mai 2025, ymatebodd y Ceisydd gan ddweud na fydd yn gallu ymrwymo i ddefnyddio technegau di-ffos rhwng y pwyntiau A a B a nodwyd oherwydd yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddyluniad system drydanol y Datblygiad Arfaethedig.

4.22. Dywedodd y Ceisydd ei fod wedi ymrwymo i groesi nifer o rwystrau presennol gan ddefnyddio technegau di-ffos i'r gorllewin o'r adran 'A i B'. Oherwydd nifer y rhwystrau y mae angen eu croesi gan ddefnyddio technegau di-ffos a pha mor agos ydynt i'w gilydd, mae'n debygol iawn y bydd angen iddo gynnal un broses ddrilio hir i groesi'r rhwystrau hyn. Dywedodd y Ceisydd hefyd ei fod wedi ymrwymo i groesi'r llinell 33 kV foltedd uchel tanddaearol sydd yn adran A i B, a'r is-ffordd i'r dwyrain. Mae'r Ceisydd yn nodi bod nifer o rwystrau i'r dwyrain o leoliad A i B y gellid eu croesi gan ddefnyddio technegau ffos neu ddi-ffos, a'i bod yn debygol y bydd angen iddo ddefnyddio technegau di-ffos gan ddechrau o'r llinell danddaearol yr holl ffordd drwodd i'r is-ffordd.

4.23. Safbwynt y Ceisydd yw bod gofyn am ddrilio 450 metr arall rhwng pwyntiau A a B ar ôl y darn helaeth o groesi rhwystrau i'r gorllewin, a darn helaeth o groesi i'r dwyrain o'r lleoliad yr ymrwymwyd iddo eisoes, i bob pwrpas yn dileu'r hyblygrwydd sydd ei angen arno i fireinio a darparu'r dyluniad trydanol er mwyn gallu lleoli pyrth cysylltu ar bellteroedd sefydlog ar hyd llwybr y ceblau. Mae'r Ceisydd hefyd yn datgan nad oes sicrwydd y bydd y teulu Lloyd Evans yn preswylio pan fydd unrhyw weithgareddau adeiladu Mona yn cael eu cynnal ar y parsel tir hwn, gan fod y gwaith drilio y gwnaed cais amdano wedi'i leoli ar y tir sy'n eiddo i Hugh Morris Parry a Gillian Ann Parry, y mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona wedi cytuno â nhw ar benawdau telerau ar gyfer yr hawliau gwirfoddol a geisir, ac a feddiannir gan G Lloyd Evans a'i Feibion (Llyfr Gorchwyl, REP7-014). Mae Mr a Mrs Parry wedi rhoi eu tir ar werth yn ddiweddar, sy'n cynnwys plot 10-179.

4.24. Yn yr ymateb, dywedodd y Ceisydd ei fod yn barod i wneud mesurau lliniaru penodol er budd G Lloyd a'i Feibion, ar yr amod eu bod yn meddiannu plot 10-179 cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Mae'r Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_06 F01) a gyflwynwyd fel rhan o ymateb y Ceisydd yn cynnwys, yn adran 1.10.2.1, y mesurau lliniaru penodol y byddai'r Ceisydd yn gallu eu defnyddio i leihau'r effeithiau yn yr ardal hon[1].

4.25. Ar 30 Mai 2025, gan nodi bod y Ceisydd wedi darparu mesurau lliniaru penodol ar gyfer daliad tir y teulu Evans yn adran 1.10.2.1 o'r Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Amlinellol Heb Ragfarn, ond bod y plot ar hyn o bryd ar werth gan y tirfeddianwyr, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd ddarparu fersiwn diwygiedig o'r Datganiad sy'n sicrhau'r mesurau lliniaru hyn ar gyfer unrhyw ddeiliaid tir neu denantiaid y tir hwnnw a allai fod eu hangen, heb fod wedi'u cyfyngu i denant penodol.

4.26. Ar 12 Mehefin 2025, ymatebodd Bradburne Price & Co i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 29 Mai 2025 ar ran G Lloyd Evans a'i Feibion yn ailddatgan eu safbwynt eu bod yn gofyn am ymrwymiad gan y Ceisydd ar gyfer Drilio Cyfeiriadol Llorweddol mewn un hyd parhaus ar gyfer y 450m rhwng pwyntiau A a B.

4.27. Ymatebodd y Ceisydd i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 30 Mai 2025 ar 23 Mehefin 2025, gan ddarparu fersiwn wedi'i diweddaru o'r Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_06 F02) i egluro y bydd y mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer plot tir 10-179 yn cael eu cytuno gyda'r Partïon perthnasol yr Effeithir arnynt cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Nododd y Ceisydd hefyd y llythyr a anfonwyd gan Bradburne Price & Co ar 12 Mehefin a chadarnhaodd fod eu hasiantiaid tir penodedig, Dalcour Maclaren, Mr HL Evans, Mr RJL Evans a'u hasiant penodedig Ms Griffiths wedi cael cyfarfod cynhyrchiol ar 13 Mehefin 2025 i drafod mesurau lliniaru posib, gan gynnwys yr enghreifftiau a amlinellir yn y Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_06 F02) a dywedodd y Ceisydd eu bod yn obeithiol y gellir dod i gytundeb gwirfoddol.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.28. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi y cytunir ar fesurau lliniaru arfaethedig y Ceisydd gyda'r Partïon perthnasol yr Effeithir arnynt cyn dechrau'r gwaith adeiladu ac mae'n credu bod y mesurau lliniaru yn dderbyniol o ran lleihau'r effeithiau ar ddaliad tir y teulu Evans. Er nad yw hyn yn bodloni argymhelliad yr Awdurdod Archwilio yn llawn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu ei fod yn ddigonol yn yr amgylchiadau ac yn cytuno â chasgliadau eraill yr Awdurdod Archwilio a'r pwysoliad a briodolir, ac felly mae wedi neilltuo pwysoliad negatif cymedrol i ddefnydd tir ac amodau'r tir yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

Sŵn a dirgryndod

4.29. O ran sŵn a dirgryndod, daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad bod yr hierarchaeth lliniaru wedi cael ei defnyddio a bod gofynion y Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1, EN-3 ac EN-5 wedi cael eu bodloni. Gan nodi y byddai rhywfaint o niwed o ganlyniad i sŵn ac aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn dal i gronni i dderbynyddion

[1] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010137/EN010137-002238-S_RFI1_06_Mona_Without%20Prejudice%20Outline%20Onshore%20Construction%20Method%20Statement%20(F01)%20(Tracked).pdf

sensitif, daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad mai pwysoliad negatif bach sydd i faterion sy'n ymwneud â sŵn a dirgryndod yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER.4.3.72].

4.30. Mae'r Awdurdod Archwilio wedi nodi bod y Ceisydd yn chwilio am oriau gwaith hirach na'r arfer ar ddydd Sadwrn ar gyfer y gwaith ar y tir a symudiadau cerbydau nwyddau trwm, gan fod drafft y Ceisydd o'r Gorchymyn yn caniatáu gweithio rhwng 0700 a 1900 ar ddydd Sadwrn [ER 4.3.47 et seq.]. Nid yw'r Awdurdod Archwilio wedi'i argyhoeddi bod amgylchiadau unigryw yn yr achos hwn sy'n golygu y dylai'r oriau gwaith fod yn hirach na 0700 i 1300 ar ddydd Sadwrn [ER.4.3.59]. Felly, mae'r Awdurdod Archwilio wedi argymell bod y Gofyniad sy'n cyfyngu oriau adeiladu yn cyfyngu oriau gwaith i 0700 i 1300 ar ddydd Sadwrn.

4.31. Mewn llythyr dyddiedig 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd ddarparu, heb ragfarn, fersiynau wedi'u diweddaru o'r Cod Ymarfer Adeiladu, gan gynnwys y Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol a'r Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryndod Adeiladu amlinellol, i gyfeirio at oriau gwaith rhwng 0700 a 1900 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 0700 a 1300 ar ddydd Sadwrn, heb unrhyw weithgarwch ar ddydd Sul na gwyliau banc. Ar 23 Mai 2025, darparodd y Ceisydd fersiynau wedi'u diweddaru o'r dogfennau canlynol, heb ragfarn, i ymgorffori'r oriau gwaith a gynigir yn llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol:

- Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_03 F01)
- Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryndod Adeiladu Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_04 F01)
- Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_05 F01)
- Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_06 F01)
- Cynllun Rheoli Mynediad Priffyrdd Amlinellol Heb Ragfarn (S_RFI1_07 F01)

4.32. Yn ei ymateb, dywedodd y Ceisydd hefyd y byddai cyfyngu ar weithio ar brynhawn Sadwrn yn golygu y byddai angen cyfnodau adeiladu hirach mewn lleoliadau gwaith unigol. O ganlyniad, byddai cymunedau ar hyd rhannau penodol o'r llwybr yn profi effeithiau adeiladu dros gyfnod estynedig, gan danseilio bwriad y Ceisydd i gwblhau gwaith yn effeithlon ac yn brydlon ym mhob ardal.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.33. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried safbwynt y Ceisydd. Fodd bynnag, mae'n cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio ynghylch cyfyngu ar oriau gwaith ar ddydd Sadwrn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod diwygiad yr Awdurdod Archwilio i ofyniad 14 a'r dogfennau wedi'u diweddaru a ddarparwyd gan y Ceisydd yn sicrhau'r oriau gwaith cyfyngedig yn ddigonol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio ac yn priodoli pwysoliad negatif bach i sŵn a dirgryndod yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

<u>Y forwedd ac adnoddau gweledol – gwaith ar y môr</u>

4.34. Mae'r Awdurdod Archwilio'n credu y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1 ac EN-3 mewn perthynas â materion y forwedd, y dirwedd ac elfennau gweledol mewn perthynas â'r gwaith ar y môr. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon bod y Ceisydd wedi defnyddio'r hierarchaeth lliniaru cymaint ag y bo modd i leihau effeithiau'r forwedd, y dirwedd ac elfennau gweledol y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.1.105]. Daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad y byddai'r cynllun gwella'r dirwedd arfaethedig yn gwneud iawn am rywfaint o'r niwed a nodwyd o ran y forwedd, y dirwedd ac elfennau gweledol, ac y byddai'n darparu manteision i Dirwedd

Genedlaethol Ynys Môn a thirweddau dynodedig Parc Cenedlaethol Eryri yn y tymor hirach [ER 5.1.107]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y gellir cyflawni'r ddyletswydd a nodir yn adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 [ER 5.1.113].

4.35. Mae'r Awdurdod Archwilio'n nodi'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau perthnasol yn adran 11A o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 [ER 5.1.111]. Er gwaethaf canfyddiad yr Awdurdod Archwilio o niwed mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol Eryri, mae'n fodlon bod y cais yn gyson â'r amcan hwn a bod Adroddiad yr Awdurdod Archwilio, y Datganiad Amgylcheddol a'r ddogfen egwyddorion yn ddigon i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol y gellir cyflawni'r ddyletswydd [ER 5.1.112].

4.36. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon bod y Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio'n gyffredinol â pholisïau SOC_06 a SOC_07 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Serch hynny, o ystyried yr effeithiau arwyddocaol a nodwyd ar rinweddau arbennig Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri, mae'r Awdurdod Archwilio'n rhoi pwysoliad mawr i'r effeithiau niweidiol ar y forwedd, y dirwedd ac elfennau gweledol mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.1.106].

4.37. Cadarnhaodd y Ceisydd, erbyn dyddiad cau 7, ei fod wedi cytuno darparu iawndal am effeithiau gweddilliol y Datblygiad Arfaethedig ar dirweddau dynodedig ar ffurf cynllun gwella'r dirwedd, fel sydd wedi'i sicrhau yn un o Ofynion y Gorchymyn [ER 5.1.49]. Fodd bynnag, ar ddiwedd yr archwiliad, nid oedd cytundeb a106 wedi'i lofnodi a'i weithredu gerbron yr Awdurdod Archwilio, ond cyflwynodd y Ceisydd ddogfen egwyddorion cyffredinol yn lle [ER 5.1.50]. Mae'r ddogfen egwyddorion cyffredinol ar gyfer cynllun gwella'r dirwedd yn nodi'r mecanwaith ar gyfer cyflawni, y cwmpas gofodol a chwmpas y prosiect, amseriad y gronfa, maint y gronfa, y proffil talu, grŵp llywio'r prosiect, a rhestr o brosiectau posib. Nododd yr Awdurdod Archwilio fod y Ceisydd wedi datgan ei fod yn bwriadu darparu cytundeb a106 i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn diwedd y cam gwneud penderfyniad [ER 5.1.51].

4.38. Ar 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd gadarnhau a oedd yn gallu darparu cytundeb cynllunio adran 106 ("a106") wedi'i lofnodi a'i weithredu ar gyfer y Cynllun Gwella'r Dirwedd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â thirweddau Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri.

4.39. Ar 23 Mai 2025, ymatebodd y Ceisydd gan ddweud "*Mae'r Ceisydd wedi bod yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynghylch ffurf y cytundeb adran 106 yr ymrwymir iddo. Nid oes cytundeb wedi'i gyrraedd eto ond bydd yn parhau i ymgysylltu gyda'r bwriad o gyrraedd safbwynt y cytunir arno maes o law ac nid yw'n rhag-weld unrhyw rwystrau rhag gwneud hynny. Hyd nes y bydd y Ceisydd yn meddu ar dir y gellir rhwymo adran 106 iddo, ni fydd yn gallu cwblhau'r cytundeb, ond bydd yn parhau i geisio safbwynt y cytunir arno ar ddrafftio adran 106 yn y cyfamser ac yn cwblhau'r cytundeb pan fydd y tir gofynnol ar gael. Mae Gofyniad 28 y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft (AS-036) yn parhau i sicrhau'r ymrwymiad i gynllun gwella'r dirwedd sy'n sicrhau bod y Cynllun Gwella'r Dirwedd yn cael ei gyflawni p'un a gytunir ar ffurf adran 106 ai peidio.*"

4.40. Ar 30 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd ddarparu cytundeb cynllunio adran 106 wedi'i lofnodi a'i weithredu ar gyfer y Cynllun Gwella'r Dirwedd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â thirweddau Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri. Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol, os nad yw darparu'r

a106 yn bosib erbyn 23 Mehefin, y dylai'r Ceisydd egluro pam mae'r sefyllfa wedi newid. Gofynnwyd i'r Ceisydd hefyd ddarparu cadarnhad gan bartïon eraill i'r a106 arfaethedig nad yw cytundeb yn bosib. Ymatebodd y Ceisydd ar 23 Mehefin gyda ffurf gytunedig, ond heb ei llofnodi, ar y cytundeb a106, gan ailadrodd, er bod cytundeb bellach ar y drafft, nad oedd yn bosib i'r partïon weithredu'r cytundeb nes bod ganddynt fuddiant yn y tir dan sylw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon â'r safbwynt hwn, gan nodi bod y drafft bellach wedi'i gytuno ac y bydd Gofyniad 30 y Gorchymyn yn sicrhau bod y Cynllun Gwella'r Dirwedd yn cael ei gyflawni.

4.41. Mae'r Awdurdod Archwilio'n nodi bod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026) yn nodi ei bwriad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru ar sail Tirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar hyn yn 2024. Dywedodd yr Awdurdod Archwilio y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddymuno cael cadarnhad ynghylch statws y Parc Cenedlaethol arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ei fod yn fodlon bod modd cyflawni unrhyw ddyletswyddau statudol a osodir ar gyrff cyhoeddus yn foddhaol [ER 5.1.113].

4.42. Fel y nodir ym mharagraffau 4.11-4.14 o'r llythyr hwn, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol am ddiweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) ar y bwriad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru ar sail Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac am y rhesymau a nodir yn y paragraffau hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad oes unrhyw beth pellach iddo ei ystyried, na chafodd ei ystyried gan yr Awdurdod Archwilio, mewn perthynas â'r effeithiau ar y derbynnydd posib hwn o ran y forwedd, y dirwedd ac elfennau gweledol.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.43. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio ar y mater hwn ac mae wedi priodoli pwysoliad negatif mawr i'r forwedd ac adnoddau gweledol yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

<u>Mordwyaeth a Morgludiant</u>

*Effeithiau ar ddiogelwch mordwyo*

4.44. O ran diogelwch mordwyo ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn unig, daethpwyd i gonsensws cyffredinol gyda rhanddeiliaid na nodwyd unrhyw beryglon annerbyniol. Dywedodd Stena Line Limited ("Stena") fod unrhyw gynnydd mewn risg yn annerbyniol ond tynnodd ei wrthwynebiad yn ôl drwy lythyr ar 27 Mai 2025. Roedd yr Awdurdod Archwilio'n credu nad oedd wedi cael unrhyw dystiolaeth sylweddol bod y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun yn anniogel ac felly ni fyddai'n gwyro oddi wrth ganfyddiad y Ceisydd y byddai risgiau'n 'oddefadwy os ydynt mor isel ag sy'n rhesymol bosib' neu'n 'Dderbyniol yn Gyffredinol' [ER 5.2.41]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon y dangoswyd mai goddefadwy os yw mor isel ag sy'n rhesymol bosib fyddai risg y prosiect ar ei ben ei hun i ddiogelwch mordwyo ac na fyddai unrhyw beryglon annerbyniol ar ôl mabwysiadu mesurau lliniaru, ac mae'n derbyn nad oedd unrhyw effeithiau arwyddocaol o ran Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol [ER 5.2.42].

4.45. Cytunodd yr Awdurdod Archwilio, pan fydd prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin yn cael ei eithrio o'r darlun cronnus, mai goddefadwy os yw mor isel ag sy'n rhesymol bosib fyddai'r risg gronnus i ddiogelwch mordwyo [ER 5.2.43]. Derbyniodd yr Awdurdod Archwilio ganfyddiad y Ceisydd, pan fydd prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin wedi'i gynnwys,

y byddai peryglon annerbyniol o ran gwrthdaro sy'n golygu na fyddai'r risg i ddiogelwch mordwyo yn oddefadwy os yw mor isel ag sy'n rhesymol bosib ac y byddai hyn yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd pobl yn nhermau Asesu’r Effaith Amgylcheddol [ER 5.2.44].

4.46. Roedd yr Awdurdod Archwilio’n credu na fyddai'r risg gronnus i ddiogelwch mordwyo, ym mhob achos, yn oddefadwy os yw mor isel ag sy'n rhesymol bosib a’i bod felly’n cynrychioli effaith niweidiol sylweddol yn nhermau Asesu’r Effaith Amgylcheddol ac yn gwrthdaro â pharagraffau 2.8.179 a 2.8.332 Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 [ER 5.2.47]. Roedd yr Awdurdod Archwilio’n credu bod cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig ei hun at y risgiau cronnus annerbyniol o ran gwrthdaro yn gyfyngedig iawn ac roedd yn fodlon bod y Ceisydd wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig at yr effeithiau cronnus a nodwyd [ER 5.2.47]. Nododd yr Awdurdod Archwilio fod yr effeithiau cronnus yn ymwneud yn bennaf â phrosiectau nad ydynt wedi cael y cydsyniadau a'r trwyddedau angenrheidiol, ac mae’n credu ei bod yn rhesymol rhag-weld y gallai ardal yr aráe a gyflwynir yng nghais cwmpasu Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin gael ei lleihau rywfaint yn y cais terfynol i leihau'r risg gronnus o wrthdaro [ER 5.2.48]. Felly, daeth yr Awdurdod Archwilio i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn peri risgiau annerbyniol i ddiogelwch mordwyo ar ôl mabwysiadu’r mesurau lliniaru a sicrhawyd yn y Drwydded Forol Dybiedig a chynlluniau rheoli, ac nad yw'r effaith yn rhwystr i roi cydsyniad fel y rhagwelwyd ym mharagraff 2.8.331 Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 [ER 5.2.49]. Gan nodi'r gwrthdaro rhwng polisïau, priodolodd yr Awdurdod Archwilio bwysoliad sylweddol i’r mater hwn yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.2.49].

*Radar morol a mordwyo gweledol*

4.47. Dywedodd Stena fod gan dyrbinau'r potensial i greu ymyriant ar gyfer radar llongau, ond tynnodd ei wrthwynebiad yn ôl drwy lythyr ar 27 Mai 2025. Roedd yr Awdurdod Archwilio, gan nodi cytundeb Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau â'r Ceisydd ynghylch radar morol a materion mordwyo gweledol, yn credu nad oedd tystiolaeth sylweddol i wrth-ddweud canfyddiad y Ceisydd, sef gyda mesurau lliniaru wedi'u sicrhau ar waith y byddai effeithiau o arwyddocâd niweidiol bach ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu’n gronnus [ER 5.2.67].

*Effeithiau ar yr Isle of Man Steam Packet Company (“IoMSPC”)*

4.48. Mae'r gwasanaethau fferi rhwng Douglas a Lerpwl a Douglas a Heysham, sy'n cael eu gweithredu gan yr IoMSPC, yn llongau fferi hanfodol yn ystyr Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3. Roedd yr Awdurdod Archwilio’n cytuno y byddai'r Datblygiad Arfaethedig, ar ei ben ei hun ac yn gronnus, yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar wasanaethau fferi hanfodol mewn tywydd gwael, yn enwedig y gwasanaeth Douglas i Lerpwl y byddai ei raddfa a’i amlder yn ddigon i gynhyrchu cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd, treth allyriadau carbon, pwysau gweithredol yn y porthladd, a thebygolrwydd o oedi a chanslo [ER 5.2.104].

4.49. Ar ddiwedd yr Archwiliad, gwnaeth yr IoMSPC gyflwyniad i ddangos effeithiau posib y Datblygiad Arfaethedig ar bellteroedd cludo a chostau cysylltiedig, a chyfeiriodd at effeithiau dilynol posib ar ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb Gwasanaethau Môr Strategol gyda Llywodraeth Ynys Manaw, ac ar enw da'r Cwmni [AS-048]. Ni ymatebodd y Ceisydd, ond nododd yr Awdurdod Archwilio farn gynharach y Ceisydd na fyddai'r IoMSPC yn cael ei atal rhag bodloni gofynion y Cytundeb Gwasanaethau Môr Strategol, gan nodi ymhellach fod yr effeithiau cronnus a nodwyd ar lwybr Heysham i Douglas i'w priodoli i Morgan a Fferm Wynt

Alltraeth Mooir Vannin [ER 5.2.88]. Mynegodd y ddau barti ymrwymiad i barhau â'r trafodaethau ynghylch Cytundeb Lliniaru Fferïau i ddigolledu'r IoMSPC am effeithiau masnachol cynnydd mewn pellter cludo, costau tanwydd a chostau sy'n gysylltiedig â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU [ER 5.2.89]. Roedd yr Awdurdod Archwilio'n credu bod hwn yn gytundeb cwbl fasnachol nad oedd yn berthnasol i'r penderfyniad ar y Cais hwn [ER 5.2.90]. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod Archwilio'n credu, pe bai tystiolaeth o gytundeb masnachol sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall gyda'r IoMSPC yn cael ei chyflwyno, y gallai hyn fod yn ddigon i oresgyn y niwed gweithredol sylweddol i'r IoMSPC a'r gwrthdaro â pharagraff 2.8.329 Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 [ER 5.2.113].

4.50. Ar 5 Mehefin 2025, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at IoMSPC a'r Ceisydd, yn gofyn am ddiweddariad ar statws y Cytundeb Lliniaru Fferïau. Ymatebodd IoMSPC ar 11 Mehefin 2025, gan ddweud nad oedd cytundeb terfynol a bod trafodaethau'n parhau gyda'r Ceisydd, gan nodi bod IoMSPC yn gobeithio dod i gytundeb yn fuan. Ymatebodd y Ceisydd ar 12 Mehefin 2025, gan ddweud y bu diffyg ymgysylltu ystyrlon gan IoMSPC ers i'r Ceisydd gyhoeddi Penawdau Telerau diwygiedig ar 11 Chwefror 2025. Nid yw'r Ceisydd yn credu bod angen cytundeb gydag IoMSPC gan ei fod wedi dangos bod yr effeithiau'n oddefadwy os ydynt mor isel ag sy'n rhesymol bosib a bod yr effaith niweidiol gymedrol weddilliol ar lwybro tywydd gwael yn unig. Cyfeiriodd y Ceisydd hefyd at Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 sy'n cydnabod ei bod yn anochel y bydd effaith ar fordwyaeth yn ardal y safle ac o'i chwmpas ar gyfer datblygu'r fferm wynt alltraeth. Pwysleisiodd y Ceisydd ei fod wedi ceisio lleihau maint yr effeithiau ar longau fferi hanfodol a llwybrau strategol. Daeth y Ceisydd i'r casgliad bod y Cais yn cyd-fynd â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 ac roedd yn credu, i'r graddau bod effaith fasnachol niweidiol weddilliol, ei fod yn cael ei gwrthbwyso'n sylweddol gan fanteision y Datblygiad Arfaethedig, gan nodi y byddai'n croesawu trafodaethau parhaus gydag IoMSPC ar ôl cael cydsyniad.

*Yr effeithiau ar Stena*

4.51. Gofynnodd Stena am gytundeb masnachol a darpariaethau diogelu. Mewn egwyddor, roedd yr Awdurdod Archwilio'n credu, pe bai cytundeb masnachol a darpariaethau diogelu ar waith, y gallai fod yn bosib dod i'r casgliad bod y niwed gweithredol sylweddol i Stena wedi cael ei liniaru a bod y gwrthdaro â pharagraff 2.8.329 yn Natganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 a nodwyd wedi cael ei ddatrys [ER 5.2.115]. Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod Archwilio'n argymell cynnwys y darpariaethau diogelu arfaethedig gan na fu amser i'w harchwilio na cheisio barn y Ceisydd, sy'n golygu bod yn rhaid pwysoli'r niwed sylweddol i'r llwybrau mordwyo strategol yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol [ER 5.2.116].

4.52. Ar 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol am ddiweddariad ar y trafodaethau rhwng y Ceisydd a Stena. Ar 23 Mai 2025, cadarnhaodd y Ceisydd ei fod wedi llofnodi Cytundeb Lliniaru Fferïau gyda Stena. Ar 27 Mai 2025, cadarnhaodd Stena ei fod wedi ymrwymo i gytundeb masnachol gyda'r Ceisydd i fynd i'r afael â'r effeithiau ar lwybrau fferi Stena. Cadarnhaodd Stena hefyd fod ei wrthwynebiad a'i gais am ddarpariaethau diogelu wedi cael eu tynnu'n ôl.

*Casgliadau'r Awdurdod Archwilio*

4.53. Daeth yr Awdurdod Archwilio i'r casgliad bod asesiad y Ceisydd wedi ystyried yn ddigonol yr effeithiau posib ar fordwyo a morgludo yn unol ag adran 2.8 o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, adran 4 o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 a Nodyn Cyfarwyddyd Morol 654, a bod dull yr Asesiad Risg Mordwyol yn dderbyniol [ER 5.2.133]. Canfu'r

Awdurdod Archwilio na fyddai unrhyw ymyriant i'r defnydd o lonydd môr cydnabyddedig sy'n hanfodol ar gyfer mordwyo rhyngwladol [ER 5.2.134] a bod mesurau lliniaru digonol ar gyfer effeithiau ar Chwilio ac Achub morol a'r gallu ymateb mewn argyfwng, mesurau lliniaru priodol ar gyfer effeithiau ar radar morol a mordwyo gweledol, a derbyniodd yr Awdurdod Archwilio benderfyniad y Ceisydd i beidio â mabwysiadu Cychod Halio mewn Argyfwng fel mesur rheoli risg ychwanegol [ER 5.2.135].

4.54. Canfu'r Awdurdod Archwilio fod dull y Ceisydd o drafod a chydfodoli parhaus â rhanddeiliaid morol yn dderbyniol ar y cyfan, a chytunodd fod y dull gweithredu yn y Cynllun Rheoli Traffig Cychod amlinellol yn gymesur [ER 5.2.136]. Daeth yr Awdurdod Archwilio i'r casgliad hefyd fod effeithiau trawsffiniol wedi cael eu hasesu'n ddigonol ac na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar fordwyo a morgludo yng ngwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd [ER 5.2.136].

4.55. O ran diogelwch mordwyo, canfu'r Awdurdod Archwilio na fyddai'r risg gronnus, ym mhob achos, yn oddefadwy os yw mor isel ag sy'n rhesymol bosib, o ganlyniad i lai o le yn y môr yng nghyffiniau ffermydd gwynt alltraeth arfaethedig eraill ym Môr Iwerddon [ER 5.2.137]. Byddai'r risg gronnus hon yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ac yn gwrthdaro â pharagraffau 2.8.179 a 2.8.331 Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 [ER 5.2.137]. Roedd yr Awdurdod Archwilio'n fodlon bod y Ceisydd wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig at yr effeithiau cronnus a nodwyd ac nid oedd yn credu y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn peri risgiau annerbyniol i ddiogelwch mordwyo ar ôl mabwysiadu mesurau lliniaru [ER 5.2.138]. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod Archwilio'n credu bod gan hyn bwysoliad sylweddol yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.2.138].

4.56. Canfu'r Awdurdod Archwilio y byddai'r Datblygiad Arfaethedig, ar ei ben ei hun ac yn gronnus, yn cael effeithiau niweidiol sylweddol ar longau fferi hanfodol rhwng y DU ac Ynys Manaw mewn tywydd gwael, yn cyfrannu at effeithiau cronnus niweidiol sylweddol ar weithrediadau Stena rhwng Lloegr a Belfast mewn tywydd arferol a thywydd gwael, ac yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar gargo masnachol a thraffig tanceri sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i Borthladd Lerpwl [ER 5.2.139]. Daeth yr Awdurdod Archwilio i'r casgliad y byddai'r effeithiau ar longau fferi hanfodol a llwybrau strategol yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar y prif lwybrau mordwyo masnachol, a nododd fod Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 yn dangos bod y niwed canlyniadol hwn yn golygu pwysoliad sylweddol wrth wneud y penderfyniad [ER 5.2.139].

4.57. Yn gyffredinol, daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad bod yr effeithiau niweidiol ar fordwyo a morgludo, yn bennaf o ran effeithiau cronnus ar ddiogelwch mordwyo a'r effeithiau gweithredol sylweddol ar longau fferi hanfodol a llwybrau mordwyo strategol, yn golygu pwysoliad sylweddol yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.2.144].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.58. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Stena wedi tynnu ei wrthwynebiad a'i gais am ddarpariaethau diogelu yn ôl, ond yn credu nad yw hyn yn lleihau'r effeithiau niweidiol a nodwyd ar ddiogelwch mordwyo. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr Awdurdod Archwilio'n fodlon y byddai'r holl risgiau ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun yn oddefadwy os ydynt mor isel ag sy'n rhesymol bosib ac na fyddai peryglon annerbyniol ar ôl lliniaru. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi, ar gyfer y darlun cronnus, mai'r llai o le yn y môr rhwng Morgan a Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin sy'n golygu'n bennaf bod y risgiau'n fwy na bod yn risgiau sy'n oddefadwy os ydynt mor isel ag sy'n rhesymol bosib.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio bod y Ceisydd wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n nodi bod cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig ei hun yn gyfyngedig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi, ers i'r Archwiliad ddod i ben ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, bod newidiadau wedi cael eu gwneud i ffin Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin a fyddai'n cynyddu'r pellter rhwng strwythurau Morgan a'r fferm wynt honno, ac felly'n cynyddu faint o le sydd yn y môr. Felly, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn priodoli pwysoliad negatif cymedrol i ddiogelwch mordwyo yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

4.59. Ar gyfer llongau fferi hanfodol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio y byddai effeithiau niweidiol sylweddol mewn tywydd gwael, o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ac yn gronnus. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi nad yw'r Ceisydd na'r IoMSPC wedi cytuno ar Gytundeb Lliniaru Fferïau. Ar gyfer llwybrau strategol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio y byddai effaith niweidiol sylweddol ar weithrediadau Stena rhwng Lerpwl a Belfast. Fodd bynnag, mae'n nodi bod Stena wedi tynnu ei wrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig yn ôl ar ôl ymrwymo i gytundeb masnachol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod EN-3 yn priodoli pwysoliad sylweddol i effeithiau niweidiol ar y prif lwybrau mordwyo masnachol ac yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio bod y llwybrau hyn yn berthnasol o dan y polisi hwn. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweld unrhyw reswm dros wyro oddi wrth y polisi hwnnw yn yr achos hwn ac felly, rhwng popeth, daw i'r casgliad y dylid priodoli pwysoliad negatif sylweddol i'r effaith ar longau fferi hanfodol a llwybrau strategol yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

4.60. Yn gyffredinol, o ystyried cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig ei hun at y risg i ddiogelwch mordwyo a'r effeithiau ar lwybrau morgludo, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu y dylid priodoli pwysoliad negatif cymedrol i fordwyo a morgludo yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

Seilwaith a gweithgareddau eraill ar y môr

4.61. Mae'r Awdurdod Archwilio'n credu bod yr effeithiau posib ar geblau tanfor, seilwaith olew a nwy, Systemau Rhybudd Cynnar Radar a gweithgareddau hamdden wedi cael eu hasesu'n ddigonol [ER.5.3.89], ac y bydd y mesurau lliniaru priodol yn cael eu sicrhau gan amodau perthnasol y Drwydded Forol Dybiedig a gan y Cais Parth Diogelwch a'r Drwydded Forol annibynnol ddilynol ar gyfer yr asedau trawsyrru [ER 5.3.90]. Mae'r Awdurdod Archwilio hefyd yn dod i'r casgliad y byddai'r rhyngweithio posib rhwng y Datblygiad Arfaethedig a cheblau telegyfathrebiadau tanfor yn cael ei reoli drwy gytundebau croesi ac agosrwydd ar y môr gyda'r gweithredwyr perthnasol pan fydd manylion y seilwaith ar y môr yn derfynol [ER 5.3.91].

4.62. Fodd bynnag, daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad y dylai asesiad y Ceisydd fod wedi ystyried effeithiau olion posib y Datblygiad Arfaethedig ar ffermydd gwynt alltraeth gweithredol sydd eisoes yn bodoli, ac felly nid yw asesiad y Ceisydd wedi bodloni gofynion paragraff 2.8.197 Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 yn llawn. Mae'r Awdurdod Archwilio'n credu nad yw'r Ceisydd wedi manteisio ar bob cyfle i weithio gyda Phartïon â Diddordeb Ørsted (IPs Ørsted) i leihau'r effeithiau negyddol na'r angen posib am fesurau lliniaru, naill ai pan godwyd y materion yn ystod y cam Cyn Gwneud Cais neu yn ystod yr Archwiliad. Mae'r Awdurdod Archwilio'n credu nad yw'r dull hwn yn cyd-fynd â pharagraffau 2.8.344 a 2.8.200 o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, a'i fod yn groes i ysbryd paragraff 2.8.261 o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 [ER 5.3.92], ac mae hefyd yn canfod rhywfaint o wrthdaro â Pholisi ECON_02 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Pholisi NW-CO-1 o

Gynllun Morol y Gogledd-orllewin oherwydd nad yw'r Ceisydd wedi cynnal asesiad olion [ER 5.3.95].

4.63. Gan roi sylw penodol i'r ansicrwydd sy'n dal yn bodoli ynghylch effeithiau olion posib a'r diffyg cydymffurfio a nodwyd â rhywfaint o bolisi perthnasol, daw'r Awdurdod Archwilio i'r casgliad bod pwysoliad cymedrol i'r effeithiau ar seilwaith a gweithgareddau eraill ar y môr yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.3.97]. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, mae'r Awdurdod Archwilio wedi cydnabod, yn absenoldeb sylfaen dystiolaeth sefydlog, cyfeiriad polisi clir, canllawiau methodolegol a mecanwaith rhannu data, bod effeithiau olion yn fater arbennig o gymhleth i ymgeiswyr ac IPs eraill [ER 5.3.98].

4.64. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi, o ddechrau'r archwiliad, bod IPs Ørsted wedi mynegi pryder y gallai'r Datblygiad Arfaethedig gael effaith niweidiol ar gynnyrch ynni eu hasedau oherwydd ymyriant ar gyflymder a chyfeiriad y gwynt (a elwir yn effeithiau olion). Mae IPs Ørsted yn credu y dylai'r Ceisydd fod wedi cynnal asesiad o effeithiau olion posib yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, paragraff 2.8.197 [ER 5.3.34], ac yn absenoldeb asesiad olion gan y Ceisydd, comisiynodd IPs Ørsted Wood Thilsted Partners Limited i gynhyrchu adroddiad asesu'r effeithiau olion, a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 5 [REP5-120] [ER 5.3.46].

4.65. Ar ddyddiad cau terfynol yr Archwiliad, cyflwynodd IPs Ørsted fersiwn diwygiedig o'r adroddiad i ystyried sylwadau'r Ceisydd mewn perthynas â ffin Asedau Cynhyrchu Gwynt Alltraeth Morgan a ddefnyddiwyd yn yr asesiad [REP7-153]. Arweiniodd hyn at newid bach i'r effeithiau cronnus a ragwelwyd, ond dim newid i effeithiau'r prosiect ar ei ben ei hun a ragwelir. Oherwydd amseriad y cyflwyniad, nid oedd cyfle i'r Ceisydd ymateb iddo cyn i'r Archwiliad ddod i ben [ER 5.3.47]. Mae Adroddiad Wood Thilsted yn canfod y gallai'r Datblygiad Arfaethedig fod yn gyfrifol am golledion olion ychwanegol rhwng 0.83% ac 1.67% ar gyfer pob un o wyth Fferm Wynt Alltraeth Ørsted a aseswyd o'i gymharu â'r amodau gweithredu presennol. Gan ystyried y portffolio o asedau Ørsted yn ei gyfanrwydd, gallai hyn olygu colledion olion ychwanegol o tua 1.38% o'i gymharu â'r llinell sylfaen [REP7-153] [ER 5.3.49].

4.66. Mae'r Ceisydd yn anghytuno â dehongliad IPs Ørsted o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, paragraff 2.8.197. Ei safbwynt yw na ellid ystyried yn rhesymol bod y Datblygiad Arfaethedig yn 'agos i' asedau Ørsted gan eu bod i gyd o leiaf 30km o ardal arfaethedig yr aráe ac nad yw'r cyfeiriad at 'drwyddedau' yn hytrach na 'chydsyniadau' yn berthnasol i awdurdodiadau ar gyfer gweithredu fferm wynt, neu i gymryd gwynt ar gyfer gweithgarwch economaidd [ER 5.3.35]. Mae'r Ceisydd hefyd yn dadlau nad oes model na methodoleg safonol a dderbynnir gan y diwydiant ar hyn o bryd, a diffyg dull cydnabyddedig o gynnal asesiad o effeithiau olion [ER 5.3.38].

4.67. Mewn llythyr dyddiedig 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd roi ei farn ar fersiwn derfynol Adroddiad Wood Thilsted. Ar ben hynny, os na chytunwyd ar yr asesiad yn Adroddiad Wood Thilsted, gofynnwyd i'r Ceisydd ddarparu cynnig heb ragfarn i'r Ceisydd sicrhau asesiad, ac ystyried ymhellach ffyrdd o leihau unrhyw effeithiau a aseswyd, gan gynnwys cyfleoedd i weithio gyda ffermydd gwynt yr effeithir arnynt i gyflawni hyn.

4.68. Yn ei ymateb ar 23 Mai 2025, dywedodd y Ceisydd ei fod yn anghytuno â'r crynodeb o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 yn llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol a'i fod yn credu nad oes cyfeiriad o dan bolisi presennol y Datganiad Polisi Cenedlaethol i ystyried effeithiau olion fel rhan o asesiad ceisydd (paragraff 1.2.2.3). Ar ben hynny, nid yw'r Ceisydd yn credu ei

bod yn briodol rhoi unrhyw bwysoliad i'r diwygiadau arfaethedig i EN-3 ar hyn o bryd (paragraff 1.2.2.6).

4.69. Nid yw'r Ceisydd yn credu bod Adroddiad Asesu'r Effeithiau Olion gan Wood Thilsted yn darparu arfarniad cadarn na chywir o'r effeithiau olion ar brosiectau IPs Ørsted, ac mai dangosol yn unig y gall fod ac na ddylai fod yn sail ar gyfer pennu llinell sylfaen neu wneud penderfyniad ynghylch cydsyniad (paragraff 1.2.4.3).

4.70. Mae'r Ceisydd yn cydnabod y bydd effeithiau olion gweddilliol o Aráe Mona ar asedau IPs Ørsted (paragraff 1.2.2.10). Darparodd y Ceisydd eiriad ar gyfer gofyniad effeithiau olion 'heb ragfarn' (paragraff 1.2.3.3). Mae'r Ceisydd yn nodi, er mwyn cynnwys unrhyw gynllun effeithiau olion cymeradwy yn y cynllun dylunio tyrbinau gwynt y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu i'w gymeradwyo o dan y Drwydded Forol Dybiedig yn Atodlen 14 y Gorchymyn, y byddai hefyd angen diwygiad cysylltiedig i Amod 17 y Drwydded mewn perthynas â chynlluniau a dogfennau cyn adeiladu (paragraff 1.2.3.4).

4.71. Gofynnwyd i IPs Ørsted hefyd roi barn ar nodyn technegol y Ceisydd "Calculation of the net effects on GHG emissions" AS-033 ("y Nodyn Nwyon Tŷ Gwydr"). Yn ei ymateb ar 23 Mai 2025, dywedodd IPs Ørsted nad ydynt yn credu bod y Nodyn Nwyon Tŷ Gwydr yn darparu asesiad cywir o'r senario waethaf bosib mewn perthynas ag effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan fod y Nodyn Nwyon Tŷ Gwydr yn asesu effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar sail oes fyrraf posib pob un o asedau IPs Ørsted (paragraff 2.1).

4.72. Mae IPs Ørsted yn awgrymu y dylid gofyn i'r Ceisydd ddarparu asesiad nwyon tŷ gwydr wedi'i ddiweddaru sy'n cynnwys y senario waethaf bosib, er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu gwerthuso'r prosiect yn briodol yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi perthnasol. Nododd yr Awdurdod Archwilio safbwynt y Ceisydd, sef oherwydd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn Atodiad 2.1 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol 8): greenhouse gas assessment technical report [APP-182], ar lefel uchel mae'r gostyngiad posib mewn cynhyrchu gan IPs Ørsted eisoes wedi'i gynnwys yn ei asesiad [REP5-080] [REP6-082] ac, felly, derbyniodd na fyddai hyd yn oed effeithiau olion ar y raddfa a honnir gan IPs Ørsted yn newid canlyniad cyffredinol asesiad y Ceisydd o effeithiau net nwyon tŷ gwydr, fel y nodir yn adran 2.10.8 o Bennod 2 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol 4) [ER 5.3.62]. Hefyd, nododd yr Awdurdod Archwilio gyfyngiadau'r nodyn technegol nwyon tŷ gwydr, yn ogystal â'r anawsterau gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'i gyflwyniad hwyr, ac felly priodolodd yr Awdurdod Archwilio bwysoliad cyfyngedig i'r nodyn technegol wrth ystyried y mater yn gyffredinol [ER 5.3.63]. Mewn llythyr dyddiedig 12 Mehefin 2025 mewn ymateb i lythyr IPs Ørsted ar 23 Mai 2025, roedd y Ceisydd yn dadlau na fydd cynnal yr asesiad nwyon tŷ gwydr gan ddefnyddio dyddiadau gwahanol yn newid casgliad cyffredinol yr asesiad, sef y bydd Fferm Wynt Alltraeth Mona yn creu budd net. Mae'n mynd ymlaen i ddadlau bod ei asesiad hefyd yn ystyried oes weithredol 35 mlynedd Fferm Wynt Alltraeth Mona, ond byddai unrhyw estyniad i'w hoes weithredol, gan ddilyn yr un rhesymeg a ddefnyddiwyd i estyniad oes prosiectau IPs Ørsted, yn arwain at allyriadau net ychwanegol wedi'u hosgoi, ac yn atgyfnerthu yn hytrach na newid casgliadau'r asesiad.

4.73. Ar 12 Mehefin, ymatebodd Shepherd a Wedderburn LLP, asiant IPs Ørsted, i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 29 Mai 2025. Roedd wedi ailddatgan ei safbwynt y dylai'r Ceisydd fod wedi ystyried effeithiau olion fel rhan o'i asesiad ac wedi cadarnhau, er nad yw'n credu bod y gofyniad effeithiau olion 'heb ragfarn' a ddarparwyd gan y Ceisydd yn rhoi sylw

digonol i lefel y mesurau lliniaru sy'n ofynnol, ei fod yn credu bod gwall teipograffyddol yn rhan (3) o’r gofyniad, lle dylid newid y geiriau 'cynllun effeithiau olion' i 'cynllun dylunio'.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.74. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio bod yr effeithiau posib ar geblau tanfor, seilwaith olew a nwy, Systemau Rhybudd Cynnar Radar, gweithgareddau hamdden a cheblau telegyfathrebiadau tanfor wedi cael sylw digonol, a bod y mesurau lliniaru priodol ar gyfer yr effeithiau hyn wedi cael eu sicrhau'n ddigonol.

4.75. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cytuno y dylai asesiad y Ceisydd fod wedi ystyried effeithiau olion posib y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n cytuno ag asesiad yr Awdurdod Archwilio o'r mater yng nghyd-destun y polisïau perthnasol yn Natganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Morol y Gogledd-orllewin.

4.76. Mae'r Ceisydd wedi mabwysiadu safbwynt disymud cyson, a ailadroddwyd yn ei ymateb i gais yr Ysgrifennydd Gwladol am wybodaeth ar 12 Mai 2025. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu nad yw safbwynt y Ceisydd yn fuddiol a’i fod yn or-gyfreithiol, ac nid yw'n gallu cytuno ag unrhyw un o'r dadleuon a gyflwynwyd i gefnogi'r safbwynt hwnnw. Yn benodol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu:

a. Nid oes sail synhwyrol dros honni nad yw fferm wynt bresennol yn gyfystyr â “seilwaith gweithredol presennol ar y môr” at ddibenion EN-3;

b. Yng nghyd-destun polisi mewn perthynas ag effeithiau ar seilwaith arall, ni ellir dadlau bod prosiect yn ddigon “agos” i fod yn berthnasol os derbynnir bod effaith ffisegol uniongyrchol ar y prosiect hwnnw;

c. Mae'r ddadl semantig sy'n seiliedig ar y gair “trwydded” yn y polisi yn gamsyniol. Mae adeiladu a gweithredu'r ffermydd gwynt presennol yn weithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio gan y Llywodraeth mewn nifer o ffyrdd. Mae enwau'r cymeradwyaethau rheoleiddiol hyn yn amrywio, ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn atgoffa'r Ceisydd, yn yr un modd ag unrhyw fferm wynt alltraeth, y bydd gofyn iddo ddal trwydded forol a thrwydded weithredu;

d. Nid yw diffyg model neu fethodoleg safonol a dderbynnir gan y diwydiant ar gyfer cynnal asesiad olion yn golygu y gellir anwybyddu effaith gydnabyddedig.

4.77. Mae'r Ceisydd hefyd yn honni, os oedd asesiad olion yn ofynnol o dan Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, na ddylai cais am fferm wynt fod byth wedi cael ei dderbyn am archwiliad oni bai fod asesiad o'r fath yn cyd-fynd â’r cais. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn anghytuno. Ni ellir anwybyddu effaith amgylcheddol niweidiol gydnabyddedig yn llwyr dim ond oherwydd bod y ddealltwriaeth o'r effaith honno'n newydd ac yn datblygu, neu fod yr union effaith yn ansicr ac na chytunir arni. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn glir y byddai hyn yn anghyson â gofynion y Datganiad Polisi Cenedlaethol a'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

4.78. Yn ddiweddar, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i’r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 i ddileu'r amheuaeth dybiedig hon a'i gwneud yn glir bod angen asesiad olion a thrafodaethau cynnar â phartïon yr effeithir arnynt bob amser, ac i roi rhagor o eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan geiswyr. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud hyn oherwydd bod amheuon o'r fath yn cael eu mynegi, nid oherwydd ei fod yn credu bod y polisi presennol yn caniatáu i ymgeiswyr anwybyddu effeithiau olion. Fel y mae'r

testun rhagarweiniol yn 2.8.176 o’r EN-3 drafft yn ei egluro – “*As with any new development, applicants should consider the impact of their proposal on other activities and make reasonable endeavours to address these*.” Felly, er nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi unrhyw ystyriaeth annibynnol i’r EN-3 drafft newydd, mae'n nodi sylwedd y diwygiadau arfaethedig hynny.

4.79. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn arbennig o siomedig o weld bod yr Awdurdod Archwilio wedi gofyn yn benodol i'r Ceisydd ddarparu asesiad olion, ond yn hytrach na chydymffurfio â'r cais rhesymol hwnnw, ei fod wedi gwrthod gwneud hynny am yr un rhesymau cyfreithiol. Mae hwn yn fater a ddylai, ac a allai, fod wedi cael sylw priodol yn ystod yr archwiliad gan bartïon rhesymol yn cyd-weithredu, yn hytrach na mabwysiadu safbwyntiau disymud.

4.80. Yn absenoldeb asesiad olion gan y Ceisydd, mae IPs Ørsted wedi comisiynu adroddiad gan Wood Thilsted. Er bod y Ceisydd yn beirniadu sawl agwedd ar yr adroddiad hwn, mae'n nodi y byddai'r beirniadaethau hynny'n berthnasol i unrhyw asesiad olion ac yn derbyn, er na ddylid defnyddio'r adroddiad i sefydlu llinell sylfaen fanwl, ei fod yn ddangosol o leiaf. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno. Er y byddai'r Awdurdod Archwilio a'r Ysgrifennydd Gwladol wedi disgwyl i'r Ceisydd ddarparu asesiad, yn unol â'r polisi, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn bod adroddiad Wood Thilsted yn opsiwn arall derbyniol iddo ei ystyried.

4.81. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Ceisydd ac IPs Ørsted bod asesu effeithiau olion yn broses sy'n datblygu, a bod lefelau sylweddol o ansicrwydd. Nid yw'n broses sy'n gallu sefydlu union ffigurau ar gyfer effeithiau eto, ac efallai na fydd byth yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod pob parti'n derbyn y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar ffermydd gwynt presennol IPs Ørsted a bod lefelau'r effaith a nodir yn adroddiad Wood Thilsted yn ddangosol o leiaf.

4.82. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y bydd effeithiau olion y Datblygiad Arfaethedig ar seilwaith gweithredol presennol ar y môr, gan nodi na ellir sefydlu'r union ffigurau ar gyfer yr effeithiau hyn. Mae'n ymddangos bod yr effeithiau cyfartalog ar draws asedau IPs Ørsted, ar sail adroddiad Wood Thilsted (gan dderbyn mai dangosol yn unig yw'r ffigurau hyn o bosib), yn llai na 1.5% ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu'n llai na 4% wrth eu hystyried ar y cyd â ffermydd gwynt arfaethedig eraill yn yr ardal. Mae Wood Thilsted yn asesu mai'r effaith gronnus fwyaf ar un o asedau unigol IPs Ørsted yw 5.3%, ar estyniad Walney. Asesir mai effaith y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun ar estyniad Walney yw 1.58%.

4.83. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y bydd hyn yn cael effaith ariannol ar IPs Ørsted ac y gallai'r effaith hon fod yn berthnasol i benderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â'u hasedau. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio nad oes digon o dystiolaeth y bydd effeithiau olion ar eu pen eu hunain yn debygol o effeithio ar hyfywedd neu ddiogelwch unrhyw seilwaith IPs Ørsted sy'n bodoli eisoes yn y dyfodol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol eisoes wedi nodi'r angen brys am gynhyrchu ynni gwynt newydd ar y môr. Mae asesiad nwyon tŷ gwydr y Ceisydd, hyd yn oed gan ystyried beirniadaeth IPs Ørsted, yn dangos bod buddion penodol a mesuradwy'r datblygiad arfaethedig yn amlwg yn drech na'r achosion colledion dangosol ac ansicr i asedau IPs Ørsted o ganlyniad i effeithiau olion.

4.84. Gan gydnabod yr effeithiau olion ar IPs Ørsted a'r gofyniad a nodir yn Natganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Ceisydd ddarparu, heb ragfarn, dull o sicrhau bod asesiad olion yn cael ei ddarparu (os na chytunir ar yr asesiad yn

Adroddiad Wood Thilsted); ac ystyriaeth bellach o ffordd o leihau unrhyw effeithiau a aseswyd, gan gynnwys cyfleoedd i weithio gyda ffermydd gwynt yr effeithir arnynt i gyflawni hyn.

4.85. Fel y nodir uchod, er nad yw'r Ceisydd yn cytuno'n benodol ag Adroddiad Wood Thilsted, wrth wrthod sicrhau darparu ei asesiad ei hun mae'n derbyn bod yr Adroddiad Wood Thilsted yn ddangosol o leiaf. Ar y sail hon, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweld fawr o rinwedd mynnu asesiad pellach ac mae'n derbyn mai adroddiad Wood Thilsted yw'r dystiolaeth orau sydd ar gael o'r effeithiau olion, er bod y dystiolaeth yn ddangosol yn hytrach nag yn fanwl gywir.

4.86. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi safbwynt y Ceisydd mewn perthynas ag effeithiau olion ac yn nodi barn yr Awdurdod Archwilio nad oedd y Ceisydd wedi ymgysylltu'n ystyrlon iawn â'r partïon ynghylch effeithiau olion yn y cam cyn gwneud cais. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn barn yr Awdurdod Archwilio, sef efallai nad oes ateb syml na fyddai'n peryglu capasiti cynhyrchu'r Datblygiad Arfaethedig yn sylweddol neu fesurau lliniaru eraill wedi'u sicrhau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu nad yw dull gweithredu'r Ceisydd wedi'i gwneud yn bosib ystyried yn foddhaol y mater o liniaru.

4.87. Felly, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu ei bod yn angenrheidiol mewnosod y Gofyniad a ddarparwyd gan y Ceisydd yn y Gorchymyn i sicrhau na chaniateir codi unrhyw ran o unrhyw eneradur tyrbin gwynt fel rhan o'r datblygiad awdurdodedig nes bod naill ai cynllun effeithiau olion wedi'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i gymeradwyo ganddo, neu fod yr ymgymerwr wedi darparu tystiolaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol bod mesurau lliniaru amgen ar gyfer effeithiau olion wedi'u cytuno â ffermydd gwynt alltraeth presennol Ørsted. Mae'r Gofyniad hwn wedi cael ei gynnwys fel Gofyniad 29 ac mae'r diwygiad cysylltiedig i Amod 17 o'r Drwydded Forol Dybiedig hefyd wedi cael ei wneud, ac mae manylion amdano yn adran 9 o'r llythyr hwn.

4.88. Yn absenoldeb adroddiad asesiad olion, mae'r Ceisydd wedi darparu asesiad nwyon tŷ gwydr, sydd yn ei dro yn dibynnu ar lefelau'r effaith a nodir yn adroddiad Wood Thilsted. Ychydig o bwysoliad roddodd yr Awdurdod Archwilio i'r asesiad nwyon tŷ gwydr hwn ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno. Fel y nodir uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn bod ffigurau effaith Wood Thilsted yn ddangosol, yn hytrach nag yn fanwl gywir. O ran yr awgrym gan IPs Ørsted y dylai'r Ceisydd nawr ddarparu asesiad nwyon tŷ gwydr wedi'i ddiweddaru, mae'r Ysgrifennydd Gwladol, gan nodi'r ansicrwydd ynghylch methodolegau mewn perthynas ag effeithiau olion a defnyddio ffigurau dangosol, yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio y gellir dibynnu ar ganlyniad cyffredinol asesiad y Ceisydd o effeithiau net nwyon tŷ gwydr fel y nodir yn adran 2.10.8 o Bennod 2 y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol 4). Gallai prosiectau IPs Ørsted a'r prosiectau newydd arfaethedig geisio ymestyn eu hoes. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd ynghylch pa rai, os o gwbl, fyddai'n ceisio estyniad o'r fath. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol felly'n derbyn bod defnyddio'r oes a gafodd cydsyniad ar gyfer pob prosiect yn cynrychioli senario waethaf resymol. Bydd unrhyw estyniadau i oes yn newid yr asesiad, ond ni chaniateir estyniadau o'r fath heb gydsyniad pellach. Bydd unrhyw estyniad dim ond yn cynyddu'r allyriadau cyffredinol wedi'u hosgoi a aseswyd.

4.89. Gyda chynllun effeithiau olion neu fesurau lliniaru eraill y cytunwyd arnynt gydag IPs Ørsted wedi'u sicrhau erbyn hyn drwy fewnosod Gofyniad 29, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon y bydd unrhyw gamau rhesymol pellach y gellir eu cymryd i liniaru difrifoldeb effeithiau olion yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r effeithiau olion cydnabyddedig y bydd y cynnig yn eu cael ar seilwaith gweithredol presennol ar y môr a chanfyddiad clir yr

Ysgrifennydd Gwladol nad yw dull y Ceisydd o ymdrin â'r mater hwn wedi bod yn gyson â pholisi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, na’n helpu i gynllunio prosiectau'n dda, daw'r Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad y dylid priodoli pwysoliad negatif cymedrol i effeithiau ar seilwaith a gweithgareddau eraill ar y môr yn y cydbwysedd cynllunio.

Adareg ar y môr

4.90. Mae'r Awdurdod Archwilio’n fodlon bod asesiad y Ceisydd yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall effeithiau posib y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu’n gronnus, ei fod wedi dilyn yr hierarchaeth lliniaru, ac yn bodloni profion polisi Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1 ac EN-3, a'r darpariaethau polisi perthnasol sy'n gysylltiedig â Datganiad Polisi Morol y DU, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Morol y Gogledd-orllewin [ER 5.5.35]. Mae'r Awdurdod Archwilio’n priodoli pwysoliad negatif cymedrol i adareg ar y môr oherwydd y risg o wrthdaro yn ystod y cam gweithredu a'r cynnydd tebygol mewn marwolaethau llinell sylfaen ar gyfer y wylan gefnddu fwyaf a gostyngiad tebygol lefelau poblogaeth y wylan goesddu yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Pen y Gogarth [ER 5.5.36].

4.91. Mewn llythyr dyddiedig 12 Mawrth 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gadarnhau eu bod yn fodlon ar yr asesiad ar y cyd gan y Ceisydd ar gyfer yr hugan mewn perthynas ag Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Gwales [REP6-088].

4.92. Ar 21 Mai 2025, cadarnhaodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) yn unig yw Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Gwales, ac felly nid oedd ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud.

4.93. Ar 22 Mai, cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) at ei ymateb ar Ddyddiad Cau 7 [REP7-146] lle daeth i'r casgliad y gellid diystyru Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd y Safle ar gyfer gwrthdaro a dadleoli ar y cyd, yn ogystal ag effeithiau dadleoli ar nodweddion Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Gwales.

4.94. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd am ddiweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) ar statws yr asesiadau cyflwr wedi'u diweddaru ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Cymru, y rhagwelwyd y byddent yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2025. Yn ei ymateb, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) y bydd y pecynnau cyngor cadwraeth newydd, gan gynnwys asesiadau cyflwr wedi'u diweddaru, yn cael eu rhyddhau yn ystod haf 2025. Gan nad yw'r pecynnau cyngor cadwraeth newydd wedi cael eu cyhoeddi eto, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gallu eu hystyried.

4.95. O ran cais yr Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw sylwadau ar wybodaeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyflwynwyd ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer adareg ar y môr, ei fod yn gallu cytuno nad oes unrhyw Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd y Safle o brosiect Mona yn ar ei ben ei hun ac ar y cyd ar gyfer unrhyw nodweddion unrhyw Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig/safleoedd Ramsar yng Nghymru. Cadarnhaodd, y tu hwnt i hyn, nad oes ganddo unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.96. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, gan nodi'r ymatebion a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, yn dod i'r casgliad, o ran adareg ar y môr, nad oes unrhyw Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd y Safle o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei

hun ac ar y cyd ar gyfer unrhyw nodweddion unrhyw Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig/safleoedd Ramsar yng Nghymru.

4.97. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio ac mae wedi priodoli pwysoliad negatif cymedrol i'r effaith ar adareg ar y môr yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

<u>Ordnans heb ffrwydro</u>

4.98. Mae'r Awdurdod Archwilio'n fodlon bod asesiad y Ceisydd yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall effeithiau posib y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu'n gronnus, ei fod wedi dilyn yr hierarchaeth lliniaru, ac yn bodloni profion polisi Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1 ac EN-3, a'r darpariaethau polisi perthnasol sy'n gysylltiedig â Datganiad Polisi Morol y DU, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Morol y Gogledd-orllewin [ER 5.5.35]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n priodoli pwysoliad negatif cymedrol i adareg ar y môr oherwydd y risg o wrthdaro yn ystod y cam gweithredu a'r cynnydd tebygol mewn marwolaethau llinell sylfaen ar gyfer y wylan gefnddu fwyaf a gostyngiad tebygol lefelau poblogaeth y wylan goesddu yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Pen y Gogarth [ER 5.5.36].

4.99. Drwy gydol Archwiliad y Datblygiad Arfaethedig, trafodwyd y mater o glirio ordnans heb ffrwydro. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys clirio ordnans heb ffrwydro mewn ardaloedd gwaith ar wahân sy'n dod o dan ddwy Drwydded Forol (Trwydded Forol Dybiedig sydd wedi'i chynnwys yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu mewn perthynas â'r ardal ar y môr a Thrwydded Forol annibynnol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag ardal y glannau). Ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd Amod 20 o Atodlen 14 yn y Drwydded Forol Dybiedig yn cynnwys geiriad a fyddai'n sicrhau y byddai'r holl waith clirio ordnans heb ffrwydro a oedd yn dod o dan y Drwydded Forol Dybiedig yn cael ei wneud gan ddefnyddio technegau lefel isel, a byddai unrhyw wyro i glirio lefel uchel yn amodol ar gais ychwanegol am Drwydded Forol. Roedd yr atodlen hefyd yn cynnwys yr angen i ddarparu datganiad dull cyn unrhyw waith clirio ordnans heb ffrwydro sy'n cynnwys manylion penodol ar yr ordnans heb ffrwydro, ac sydd wedi'i gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

4.100. Ers i'r Archwiliad ddod i ben, mae'r Ceisydd wedi dechrau'r broses o wneud cais am y drwydded forol annibynnol i'w chyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer y cais hwnnw, ymatebodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gan ddweud bod yn rhaid datgan uchafswm o ordnans heb ffrwydro i'w glirio, h.y. 22 [mewn unrhyw Drwydded Forol a ddyfernir] i adlewyrchu'r senario a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol.

4.101. Mewn ymateb i lythyr ymgynghori cyntaf yr Ysgrifennydd Gwladol, darparodd y Ceisydd ddiweddariad ynghylch y cynnydd o ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y gwaith clirio ordnans heb ffrwydro fel rhan o drwydded forol annibynnol Cyfoeth Naturiol Cymru fel y disgrifir uchod. Yn yr ohebiaeth hon roedd y Ceisydd wedi nodi cyngor y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ynghylch yr angen am uchafswm ar gyfer y gwaith clirio ac mae wedi cytuno i gynnwys geiriad a fyddai'n cyfyngu ar y gwaith clirio i uchafswm o 22.

4.102. O ran y gwaith clirio sy'n ymwneud â'r Drwydded Forol Dybiedig a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, drwy gydol y cam cyn archwilio a'r cam archwilio dywedodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur mai'r opsiwn roedd yn ei ffafrio oedd tynnu'r holl waith clirio ordnans heb ffrwydro o'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a'r Drwydded Forol Dybiedig, a'i fod yn cael

sylw drwy Drwydded Forol annibynnol ar wahân yn lle. Fodd bynnag, yn [REP4-098] roedd wedi cadarnhau pe bai'r gwaith clirio wedi'i gyfyngu i ddulliau sŵn isel yn unig, a phe bai'n cael ei ddatgan yn glir bod yn rhaid gwneud cais am Drwydded Forol ychwanegol ar gyfer unrhyw glirio lefel uchel, y byddent yn cefnogi cynnwys gwaith clirio ordnans heb ffrwydro yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a'r Drwydded Forol Dybiedig.

4.103. Mewn ymateb i ddiweddariad y Ceisydd, ymatebodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar 12 Mehefin 2025 bod diweddariadau newydd mewn polisi, yn benodol y Datganiad Sefyllfa ar y Cyd newydd ar glirio ordnans heb ffrwydro, yn golygu bod ei safbwynt gwreiddiol o beidio â sôn o gwbl am glirio ordnans heb ffrwydro yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu/Trwydded Forol Dybiedig wedi'i gryfhau ymhellach. Yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn dadlau bod diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd am fanylion penodol y gwaith clirio ordnans heb ffrwydro ac nad yw'r arolygon a fyddai'n sail i'r manylion hyn wedi cael eu cynnal eto.

4.104. Fodd bynnag, dywedodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur hefyd, er nad dyma'r dull roedd yn ei ffafrio, os oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu sicrhau'r gwaith clirio yn y Drwydded Forol Dybiedig, fod dulliau o wneud hyn yn fwy derbyniol i'r Cyd-bwyllgor.

4.105. Yn gyntaf, croesawodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur barodrwydd y Ceisydd i dderbyn amod a oedd yn cyfyngu ar y gwaith clirio lefel isel i 22, yn unol â'r senario mwyaf a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno bod hyn yn ychwanegiad rhesymol i'w wneud at y Drwydded Forol Dybiedig, a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw gliriadau'n arwain at fwy o niwed i dderbynyddion sensitif nag sydd wedi cael ei asesu yn y senarios gwaethaf posib a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae wedi ychwanegu geiriad i sicrhau hyn yn Atodlen 14, Amod 20.

4.106. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bod y Ceisydd wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai cynnwys terfyn ar faint o ordnans fydd yn cael ei glirio hefyd yn sicrhau cysondeb rhwng drafftio'r Drwydded Forol Dybiedig a'r Drwydded Forol annibynnol.

4.107. Mae hefyd yn nodi, gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am gyflawni'r Drwydded Forol Dybiedig a'r Drwydded Forol annibynnol, os oes gofyniad ar y ddwy drwydded sy'n cyfyngu ar glirio i uchafswm o 22, ei fod yn hyderus na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i'r gwaith clirio ar draws y ddwy drwydded fod yn fwy na'r hyn sydd wedi cael ei asesu fel y senario waethaf bosib (22).

4.108. Gwnaeth y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur sylwadau hefyd yn ymwneud ag uchafswm yr ergyd rhoddi y dylai'r Ceisydd ei ddefnyddio. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn asesu bod y Ceisydd, ar sail trafodaethau y mae wedi'u cael, yn dymuno defnyddio ergydion rhoddi hyd at 3kg (h.y. y 4 x 0.75kg a gynigir ar gyfer pwysau isel), ond nid yw hyn wedi'i sicrhau. Ar y mater hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr, sydd wedi'i sicrhau, yn cadarnhau bod ffaglu lefel isel yn cynnwys dulliau sy'n defnyddio ergyd fach i losgi'r deunydd ffrwydrol heb ei ffrwydro. Mae'n credu na fydd yr ergydion bach a ddefnyddir gan y Ceisydd yn achosi unrhyw effeithiau y tu allan i'r rhai sy'n cael eu hasesu yn senario dylunio mwyaf y Ceisydd ac mae'n nodi bod y Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr yn cynnwys dulliau lliniaru amrywiol ar gyfer gwahanol feintiau ergydion posib. Fodd bynnag, mae'n croesawu sylwadau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac yn nodi y gall manylion penodol fel maint yr ergydion rhoddi gael eu datrys gan y Ceisydd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor drwy gymeradwyo cynlluniau ar ôl cael cydsyniad, yn enwedig y

datganiadau dull ar gyfer cliriad ordnans lefel isel, a sicrhawyd gan amod 20 o'r Drwydded Forol Dybiedig. Wrth wneud hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn annog y Ceisydd i ystyried papur polisi safbwynt ar y cyd diweddaraf y Llywodraeth ar glirio ordnans, a gyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2025, ar ôl i Archwiliad Mona ddod i ben. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur hefyd yn gofyn am ddogfen fanylach sy'n rhoi manylion yr holl ddulliau clirio cyn i'r broses ddechrau. Ychwanegodd y gellid cynhyrchu'r ddogfen datganiad dull hon yn dilyn arolygon ymchwiliol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn croesawu bod y ddogfen hon yn cael ei chynhyrchu ac yn ystyried bod hyn wedi'i sicrhau drwy Atodlen 14 y Drwydded Forol Dybiedig (Amod 20(1)(a)).

4.109. Gwnaeth y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur hefyd sylwadau ar y Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr amlinellol a'r Protocol Liniaru Amlinellol ar gyfer Mamaliaid Morol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi'r ceisiadau hyn ac yn nodi y gall y Ceisydd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur eu datrys drwy gymeradwyo'r cynllun terfynol ar ôl cael cydsyniad. Mae'n credu bod eu ffurfiau presennol yn cynnwys digon o fanylion er mwyn iddo allu asesu effeithiau gwaethaf posib y Prosiect.

4.110. Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru sylwadau ar fater clirio ordnans yn unrhyw un o'i ymatebion i ohebiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, a'i safbwynt terfynol yn eu datganiad clo [REP7-146] oedd ei fod yn fodlon â chynnwys gwaith clirio ordnans lefel isel yn y Drwydded Forol Dybiedig yn amodol ar rai newidiadau bach wrth ddrafftio.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.111. Yn gyffredinol, o ran sicrhau clirio ordnans, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dewis cynnwys clirio ordnans fel rhan o'r Drwydded Forol Dybiedig, mewn cytundeb â Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae'n deall pryderon y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac mae wedi ychwanegu gofyniad i sicrhau na fydd nifer y cliriadau ordnans a wneir yn fwy na'r nifer a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

4.112. Mae'r mater hwn yn ymwneud yn bennaf â'r effeithiau ar famaliaid morol ac adareg ar y tir, ond mae iddo oblygiadau hefyd mewn perthynas â derbynyddion eraill. Fodd bynnag, gyda'r mesurau lliniaru bellach wedi'u sicrhau yn y Drwydded Forol Dybiedig, nid yw hyn yn newid pwysoliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw un o'r materion hyn.

<u>Buddiannau hedfanaeth ac amddiffyniad sifil a milwrol</u>

4.113. O ran materion hedfanaeth ac amddiffyniad sifil a milwrol, mae'r Awdurdod Archwilio'n canfod bod yr hierarchaeth lliniaru wedi cael ei defnyddio a bod gofynion Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1, Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3, Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-5 a'r holl ddarpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol eraill wedi cael eu bodloni [ER 6.2.95]. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Archwilio'n nodi bod nifer o'r atebion lliniaru yn dibynnu ar ganlyniad adolygiadau strategol sy'n cael eu cynnal gan y gweithredwyr perthnasol a rhaid cyflawni pedwar o'r pum Gofyniad (22, 24, 25 a 26) cyn adeiladu unrhyw dyrbin gwynt (ac eithrio sylfeini) [ER 6.2.97]. Mae'r Awdurdod Archwilio'n credu bod y cyfuniad o'r ffactorau hyn yn creu risg gynhenid o oedi wrth gyflawni'r Datblygiad Arfaethedig yn gyffredinol ac mae'n dod i'r casgliad mai pwysoliad bach sydd i'r effeithiau ar hedfanaeth ac amddiffyn yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 6.2.97].

4.114. Mae'r Awdurdod Archwilio hefyd yn nodi na chytunwyd ar ddrafft terfynol Gofyniad 23, ynghylch Prif Radar Gwyliadwriaeth Maes Glanio Warton), gyda'r Sefydliad Seilwaith

Amddiffyn cyn i'r Archwiliad ddod i ben. Ar 12 Mai 2025, gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn i roi sylwadau ar ddrafftio'r gofyniad fel y darperir yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft terfynol y Ceisydd. Ar 23 Mai 2025, cadarnhaodd y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn fod y Ceisydd wedi cyflwyno cynnig i liniaru effeithiau'r datblygiad ar Brif Radar Gwyliadwriaeth Maes Glanio Warton ar 24 Chwefror 2025, sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd gan BAE Systems Ltd gan fod Maes Glanio Warton yn ased BAE Systems. Mae'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn yn cadarnhau y bydd ei wrthwynebiad i'r datblygiad yn parhau nes bod asesiadau technegol a gweithredol o'r cynnig lliniaru wedi cael eu cwblhau, a'u bod yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn hyfyw. Yn y cyfamser, cadarnhaodd y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn fod BAE Systems ac yntau wrthi'n ystyried y geiriad amgen i Ofyniad 23 a ddarparwyd gan y Ceisydd.

4.115. Yn ei ymateb dyddiedig 23 Mai 2025, cadarnhaodd y Ceisydd fod BAE Systems wedi datgan y dylai'r gofyniad fod yn seiliedig ar eu gofyniad arfaethedig ar Brif Radar Gwyliadwriaeth Maes Glanio Warton yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft terfynol Asedau Cynhyrchu Morgan ac Asedau Cynhyrchu Morecambe (paragraff 1.8.2.4). Mae'r Ceisydd yn credu bod y gofynion yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft terfynol y prosiectau uchod, yn enwedig Gofyniad 8 Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft terfynol Asedau Cynhyrchu Morecambe (EN010121, REP6-002), yn dderbyniol ar y cyfan, ac eithrio y gellid gwneud y drafft hwn yn fwy manwl, gorfodadwy, angenrheidiol a rhesymol ym mhob ffordd arall drwy fabwysiadu geiriad gofyniad diwygiedig y Ceisydd a nodir yn Nhabl 1.1 ymateb y Ceisydd (paragraff 1.8.2.5). Mae hynny ac eithrio is-baragraff 6 y gofyniad arfaethedig, sy'n mynnu, os bydd unrhyw fethiant yn y cynllun lliniaru radar cymeradwy, y bydd y generaduron tyrbinau gwynt yn rhoi'r gorau i weithredu ar unwaith nes bydd y methiant yn cael ei ddatrys. Nid yw'r Ceisydd yn credu bod cyfiawnhad dros y gofyniad i ddiffodd y tyrbinau neu eu cau i lawr ac y byddai'n arwain at risg annerbyniol i gyflawni'r Prosiect (paragraff 1.8.3.7). Mae'r Ceisydd yn credu bod Gofyniad 23 presennol Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn gwbl briodol ar ei ffurf bresennol ond byddai'n cynnig drafft amgen ar sail Gofyniad 8 drafft terfynol Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Asedau Cynhyrchu Morecambe, fel y nodir yn Nhabl 1.1, heb ragfarn, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu ei fod yn fwy priodol (paragraff 1.8.3.7).

4.116. Mewn ymateb i lythyrau'r Ysgrifennydd Gwladol ar 29 a 30 Mai 2025, darparodd BAE Systems ddau ymateb ar 12 Mehefin 2025 a 23 Mehefin 2025 yn y drefn honno. Mae BAE Systems yn gwrthod holl ddiwygiadau'r Ceisydd i Ofyniad 23 ac eithrio'r diwygiadau hynny sy'n ystyried y ffaith mai'r 'gweithredwr' (ar gost yr 'ymgymerwr' yn unig) fydd yn gweithredu'r cynllun lliniaru radar cymeradwy. O ran is-baragraff 6, mae BAE Systems yn dal yn credu bod ei gynnwys, a sefydlu'r egwyddor o ddiffodd y fferm wynt ar y môr os bydd y cynllun lliniaru radar cymeradwy yn methu, yn rhesymol ac yn gyfiawn o safbwynt technegol. Fodd bynnag, maent yn datgan eu bod wedi ystyried pryderon y Ceisydd ac yn deall bod y Ceisydd yn credu ei bod yn fwy priodol trafod diffodd tyrbinau'r fferm wynt ar y môr fel rhan o drafodaethau mewn perthynas â chytundeb lliniaru/trefniadau masnachol ar ôl cael cydsyniad. Mae BAE Systems wedi diwygio geiriad is-baragraff 6 i sefydlu'r egwyddor o ddiffodd y tyrbinau os bydd methiant lliniaru ond mae'n gadael y manylion (ar ffurf protocol diffodd) ar gyfer negodi a chytundeb rhwng y partïon yn y dyfodol fel rhan o'r broses gymeradwyo ar gyfer y cynllun lliniaru radar. Gwnaed diwygiad pellach i is-baragraff (6) i'w gwneud yn glir mai'r gweithredwr a fydd yn ymgymryd â'r gwaith trwsio a'r mesurau cywiro fydd eu hangen i adfer ac ailddechrau/gweithredu'r cynllun lliniaru radar cymeradwy (bydd gwaith o'r fath ar gost yr ymgymerwr yn unig).

4.117. Cadarnhaodd BAE Systems hefyd fod y Ceisydd, yn ystod yr wythnosau diwethaf (ar 8 a 21 Mai 2025), wedi darparu amrywiol adroddiadau diogelu i BAE Systems yn asesu effaith y Datblygiad Arfaethedig ar Wasanaethau Traffig Awyr ym Meysydd Glanio Walney a Warton. Maent yn datgan bod y ddau Faes Glanio yn cael eu hystyried yn "seilwaith cenedlaethol hanfodol", sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i gefnogi diogelwch gwladol ac na all y Datblygiad Arfaethedig lesteirio'r Meysydd Glanio wrth iddynt gyflawni'r swyddogaeth hanfodol hon na pheryglu eu gallu i ddarparu, yn ddi-dor, galluoedd amddiffyn sofran cenedlaethol, gweithrediadau maes awyr diogel a Gwasanaethau Traffig Awyr sy'n addas i'r diben ar gyfer gweithrediadau awyrennau sifil a milwrol, a rhaglenni amddiffyn cenedlaethol a gofynion hedfan perthnasol y Meysydd Glanio. Mae'r adroddiadau diogelu'n dangos y bydd prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mona yn cael effaith niweidiol ar Wasanaethau Traffig Awyr yn y Meysydd Glanio. Mae BAE Systems yn dal i ystyried yr adroddiadau diogelu o safbwynt gweithredol, fodd bynnag, mae BAE Systems yn credu bod angen sicrhau'r egwyddor lliniaru drwy gynnwys Gofynion yn y Gorchymyn ac maent wedi darparu geiriau yn unol â hynny. Maent yn datgan y bydd yn bosib ymgysylltu ymhellach â'r Ceisydd mewn perthynas â'r atebion lliniaru penodol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r effeithiau a nodwyd ar ôl i'w hadolygiad gweithredol ddod i ben ac maent yn deall bod y Ceisydd yn cytuno â hyn, ac yn ei ystyried yn ateb pragmatig a fydd yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen i fynd i'r afael â phryderon BAE Systems.

4.118. Anfonodd yr Ysgrifennydd Gwladol lythyr at y Ceisydd ar 25 Mehefin 2025 yn gofyn am eu sylwadau ar yr ymatebion gan BAE Systems. Yn ei ymateb dyddiedig 30 Mehefin derbyniodd y Ceisydd ofynion BAE System ar gyfer Gwasanaethau Traffig Awyr Walney a Warton gan ychwanegu'r is-baragraff canlynol yn y ddau ofyniad:

> *(a) Secretary of State, having consulted with the Operator and the Civil Aviation Authority, confirms in writing that no mitigation is required in respect of the authorised development; or*

4.119. O ran Prif Radar Gwyliadwriaeth Maes Glanio Warton, cadarnhaodd y Ceisydd ei fod yn fodlon derbyn y gofyniad diwygiedig 23 a gyflwynwyd gan BAE Systems yn ei gyflwyniad ar 23 Mehefin 2025, ac eithrio is-baragraff 6. Er bod y Ceisydd yn credu ei bod yn fwy priodol ystyried diffodd y fferm wynt ar y môr fel rhan o drafodaethau mewn perthynas â chytundeb lliniaru/trefniadau masnachol ar ôl cael cydsyniad, maent yn dadlau y byddai darpariaethau diffodd ar wyneb y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn risg heb ei mesur i fuddsoddwyr a benthycwyr a allai effeithio'n sylweddol ar allu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona i ddod i derfyn ariannol neu wneud Penderfyniad Buddsoddi Terfynol. Ar ben hynny, maent yn dadlau y gallai osod cynsail ar gyfer cydsyniadau ynni gwynt ar y môr ac ar y tir yn y dyfodol, gan danseilio strategaeth a thargedau'r Llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

4.120. Gan nodi'r ymatebion a gafwyd gan y Ceisydd, y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn a BAE Systems, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod cytundeb mewn perthynas â'r rhan fwyaf o elfennau, ond bod anghytundeb o hyd mewn perthynas â'r gofyniad i ddiffodd.

4.121. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod llythyr y Ceisydd dyddiedig 30 Mehefin yn cynnwys cytundeb i ofynion arfaethedig BAE Systems mewn perthynas â Gwasanaethau Traffig Awyr Walney a Warton. Mae'r cytundeb hwn yn amodol ar ychwanegu darpariaeth arall sy'n caniatáu osgoi'r angen am gynllun lliniaru pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru. Yng ngoleuni natur hwyr y gwrthwynebiad gan BAE

Systems mewn perthynas â Gwasanaethau Traffig Awyr Walney a Warton a'r diffyg archwiliad manwl o'r angen am liniaru, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon â'r ychwanegiad hwn. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu hychwanegu at y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu fel Gofynion 27 a 28.

4.122. Mewn perthynas â Phrif Radar Gwyliadwriaeth Warton, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd yn cytuno â gofyniad drafft arfaethedig BAE Systems, yn amodol ar ddileu is-baragraff 6, y ddarpariaeth 'diffodd'. Ar ôl ystyried cyflwyniadau BAE Systems a'r Ceisydd mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Ceisydd nad oes angen y ddarpariaeth diffodd fel y cynigir a'i bod yn adnodd rhy ddi-fin i ddelio â methiant lliniaru radar. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod y gofyniad drafft, heb y ddarpariaeth diffodd, yn ddigon eang i ganiatáu i'r cynllun lliniaru radar cymeradwy ymdrin â materion sy'n ymwneud â methiant lliniaru a'r amgylchiadau lle bydd angen diffodd. Mae'r cynllun lliniaru radar yn amodol ar gymeradwyaeth ar ôl cael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn ymgynghoriad â BAE Systems a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod y gofyniad felly'n ddigonol i sicrhau bod yr effeithiau ar Brif Radar Gwyliadwriaeth Warton yn cael eu lliniaru. Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei ychwanegu at y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu fel Gofyniad 23.

4.123. Gyda'r holl ofynion Gwasanaethau Traffig Awyr a Phrif Radar Gwyliadwriaeth sifil a milwrol perthnasol ar waith, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio ac yn priodoli pwysoliad negatif bach i fater buddiannau hedfanaeth ac amddiffyniad sifil a milwrol yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

## 5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.1. Cyhoeddir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr Ysgrifennydd Gwladol ochr yn ochr â'r llythyr hwn. Dylid darllen y paragraffau isod ochr yn ochr â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n nodi'n llawn ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'r materion hyn.

5.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac wedi ystyried yn ofalus yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ([REP7-016], [REP7-017], [REP7-018] a [[REP2-014]) fel y'i cyflwynwyd gan y Ceisydd, yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd, [PD-019] (Saesneg) / [PD-019a] (Cymraeg) fel y'i cynhyrchwyd gan yr Awdurdod Archwilio, y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau a wnaed gan Arolygwyr Prawf, ac Adroddiad yr Awdurdod Archwilio.

5.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu y gallai'r Datblygiad Arfaethedig gael Effaith Arwyddocaol Debygol ar 51 o safleoedd gwarchodedig o'i ystyried ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

5.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal Asesiad Priodol mewn perthynas ag Amcanion Cadwraethol y safleoedd gwarchodedig i benderfynu a fydd y Datblygiad Arfaethedig, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn arwain at Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd y safleoedd gwarchodedig a nodwyd. Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael iddo ac yn amodol ar y mesurau lliniaru a sicrhawyd yn y Gorchymyn terfynol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon na fydd y Datblygiad Arfaethedig, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd nodweddion cymwys unrhyw safleoedd gwarchodedig. Mae'r rhesymau llawn dros y casgliadau i'w gweld

yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r llythyr penderfyniad hwn.

## 6. Caffael Gorfodol

6.1. Daeth yr Awdurdod Archwilio i'r casgliadau canlynol [ER.9.10.1]:

- bod safle'r Cais wedi cael ei ddewis yn briodol;
- bod pob dewis rhesymol arall heblaw caffael gorfodol wedi cael ei archwilio;
- nad yw'r tir sydd i'w gymryd yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol a'i fod yn gymesur â’r angen;
- byddai gan y Ceisydd fynediad at y cyllid angenrheidiol ac mae'r Gorchymyn yn darparu mecanwaith clir ar gyfer gwarantu'r cyllid;
- mae angen sicrhau'r tir a'r hawliau sydd eu hangen i adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig o fewn amserlen resymol, ac mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynrychioli budd sylweddol i'r cyhoedd i'w bwysoli yn y cydbwysedd;
- bod cyfiawnhad dros gaffael gorfodol a meddiannu dros dro ym mhob achos sy'n ymwneud â gwrthwynebiadau a materion unigol er mwyn gallu rhoi'r Datblygiad Arfaethedig ar waith;
- bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn Adrannau 122, 123, 127 a 138 o Ddeddf Cynllunio 2008 a’r Canllaw Caffael Gorfodol;
- o ran mannau agored, ni fyddai tir y Gorchymyn perthnasol, ar ôl rhoi hawl y Gorchymyn mewn grym, yn llai manteisiol nag yr oedd i'r personau sy'n ddarostyngedig i a132(3)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Cynllunio 2008. Yn unol â hynny, ar sail a132(2)(a) o hynny, mae angen eithrio gweithdrefn seneddol arbennig mewn perthynas â'r caffael gorfodol arfaethedig o hawliau dros y tir hwn fel y nodir yn y rhaglith i Orchymyn drafft terfynol y Ceisydd [AS-036];
- na chafwyd y cydsyniad sy'n ofynnol o dan adran a135(2) i gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael buddiannau yn orfodol ar dir y Goron, sy’n ddim yn cael ei ddal gan y Goron neu ar ei rhan. Os na cheir cydsyniad, bydd angen tynnu lleiniau Tir y Goron o gwmpas y darpariaethau caffael gorfodol yn y Gorchymyn;
- gellir darparu caffael gorfodol a meddiannu dros dro ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig mewn modd sy'n gwbl unol â'r holl ystyriaethau perthnasol o ran hawliau dynol a dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus.

*Comisiynwyr Ystad y Goron*

6.2. Ar 11 Ebrill 2025, cadarnhaodd Comisiynwyr Ystad y Goron eu bod wedi dod i gytundeb ar wahân gyda'r Ceisydd a bod ganddynt sicrwydd digonol ynghylch y ffordd y bydd pwerau caffael gorfodol (fel y'u cynhwysir yn Erthygl 22 a 26 o'r Gorchymyn) yn cael eu harfer mewn perthynas â buddiannau trydydd parti yn nhir y Goron sy'n rhan o Ystad y Goron. Cadarnhaodd y Comisiynwyr gydsyniad i gaffael gorfodol buddiannau trydydd parti ym Mhlotiau Tir y Goron, yn amodol ar gynnwys erthygl yn ymwneud â 'Hawliau'r Goron' yn y Gorchymyn (i'w eirio fel yn y llythyr) a pharhau i'w gymhwyso, ac ymgynghori â’r Comisiynwyr ymhellach os cynigir unrhyw amrywiad i'r Gorchymyn a allai effeithio ar unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Gorchymyn sy'n ddarostyngedig i adran 135(1) a 135(2) o'r Ddeddf. Mae hyn wedi cael ei gynnwys fel Erthygl 38 yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

*Gweinidogion Cymru*

6.3. Ar 14 Ionawr 2025, dywedodd y Ceisydd fod angen cydsyniad a135 ar wahân ar gyfer lleiniau rhif 02-034 a 02-036, sy'n cynnwys coetir yng Nghastell Gwrych. Ar 12 Mai 2025, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol am ddiweddariadau gan y Ceisydd, Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch a gafwyd cydsyniad adran 135 ar gyfer y lleiniau hyn ai peidio, ac a yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cydsyniad y meddiannydd mewn perthynas â'i fuddiannau cyfreithiol yn y lleiniau hyn.

6.4. Ar 22 Mai 2025 cadarnhaodd Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru y rhagwelir y bydd cytundeb terfynol yn fuan, ac y bydd Gweinidogion Cymru wedyn mewn sefyllfa i ddarparu'r cydsyniad a.135 yn brydlon. Cadarnhaodd y ddau barti nad ydynt ar hyn o bryd yn gweld unrhyw rwystr rhag dod i gytundeb ac y bydd cydsyniad adran 135 yn cael ei roi mewn perthynas â'r lleiniau hyn cyn gynted â phosib.

6.5. Ar 30 Mai, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol lythyr yn datgan y dylai'r Ceisydd gadarnhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cydsyniad adran 135 i ddeiliaid mewn perthynas â'i fuddiannau cyfreithiol ym mhlotiau 02-034 a 02-036. Mewn llythyrau dyddiedig 23 Mehefin 2025, cadarnhaodd y Ceisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn rheoli'r Plotiau drwy Adran 3 ac nad ydynt yn meddiannu'r Plotiau. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau statudol o dan Adran 3 i reoli'r Plot a chynrychioli Gweinidogion Cymru wrth wneud hynny. Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru fuddiant cyfreithiol ar wahân yn y Plotiau ac nid oes gofyniad i'r Ceisydd gael cydsyniad adran 135 gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegol at yr hyn a oedd wedi'i gynnwys yn y llythyr dyddiedig 22 Mai 2025 y cyfeirir ato uchod.

*Gwynt y Môr OFTO Plc*

6.6. Ar 15 Ebrill 2025, dywedodd y Ceisydd fod Gwynt y Môr OFTO Plc, ar Ddyddiad Cau 7, wedi ysgrifennu at yr archwiliad (REP7-151) yn nodi ei ryngweithiadau â'r Datblygiad Arfaethedig a'r angen i ddarparu amddiffyniad. Cadarnhaodd y Ceisydd fod y ddau barti wedi bod mewn trafodaethau gweithredol ar ôl i'r archwiliad ddod i ben gyda dim ond un mater heb ei ddatrys a bod disgwyl dod i gytundeb terfynol cyn bo hir, gyda diweddariad pellach yn cael ei wneud i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl hynny. Ar 5 Mehefin 2025, gofynnwyd i'r Ceisydd a Gwynt y Môr OFTO Plc roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws eu trafodaethau.

6.7. Ar 12 Mehefin, cadarnhaodd y Ceisydd ei fod wedi cytuno ar delerau cytundeb masnachol gyda Gwynt y Môr OFTO Plc a bod y partïon wrthi'n llofnodi'r cytundeb ar hyn o bryd. Ar ôl ei lofnodi, roedd y Ceisydd yn disgwyl i Gwynt y Môr OFTO Plc dynnu ei sylwadau i'r cais yn ôl.

6.8. Ar 23 Mehefin cadarnhaodd Gwynt y Môr OFTO Plc fod cytundebau wedi'u cwblhau a'u gwneud ar 20 Mehefin 2025 ac o ganlyniad, tynnodd ei wrthwynebiad yn ôl.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol*

6.9. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r ymatebion a gafwyd a'r gwrthwynebiadau a godwyd gan Bartïon yr Effeithir arnynt [ER 9.4.36 i ER 9.4.67 ac Atodiad D] ac mae'n cytuno â'r Awdurdod Archwilio bod cyfiawnhad dros gaffael gorfodol a meddiannu dros dro ym mhob achos sy'n ymwneud â gwrthwynebiadau a materion unigol er mwyn gallu rhoi'r Datblygiad Arfaethedig ar waith. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd wedi sicrhau'r cydsyniad gorfodol gan awdurdodau perthnasol y Goron, gan gynnwys Gweinidogion Cymru.

6.10. O ran mannau agored, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio bod angen eithrio gweithdrefn seneddol arbennig mewn perthynas â'r caffael gorfodol arfaethedig o hawliau dros y tir hwn.

6.11. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio bod y pwerau a geisir yn angenrheidiol i adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig o fewn amserlen resymol a bod y pwerau a geisir yn bodloni'r amodau a nodir yn Adrannau 122, 123, 127 a 138 o Ddeddf Cynllunio 2008 a'r Canllawiau Caffael Gorfodol.

6.12. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio y dylid rhoi pwerau caffael gorfodol, darpariaethau diogelu, pwerau meddiannu dros dro, pwerau sy'n awdurdodi Caffel Gorfodol o dir Ymgymerwyr Statudol a hawliau dros dir, a'r pwerau sy'n awdurdodi diddymu hawliau a chael gwared ar gyfarpar Ymgymerwyr Statudol.

6.13. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw reswm dros gredu y byddai caniatáu'r Gorchymyn yn arwain at unrhyw ymyrraeth anghyfiawn â hawliau dynol a fyddai'n gwrthdaro â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998.

## 7. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'r Cydbwysedd Cynllunio a'r Casgliadau

7.1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod argymhelliad yr Awdurdod Archwilio bod achos cryf dros roi cydsyniad datblygu [ER.8.4.1] ac y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y Gorchymyn.

7.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r Awdurdod Archwilio a'r pwysoliadau y mae wedi'u priodoli yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Traffig a thrafnidiaeth (pwysoliad negatif bach);
- Ecoleg a bioamrywiaeth ar y tir (pwysoliad negatif bach);
- Risg llifogydd ac ansawdd dŵr (pwysoliad niwtral);
- Mamaliaid morol (pwysoliad negatif cymedrol);
- Pysgodfeydd masnachol (pwysoliad negatif cymedrol);
- Pysgod a physgod cregyn (pwysoliad negatif bach);
- Ecoleg fenthig ac islanw a rhynglanw (pwysoliad negatif bach);
- Prosesau ffisegol (pwysoliad niwtral);
- Yr amgylchedd hanesyddol (pwysoliad negatif bach);
- Elfennau economaidd-gymdeithasol (pwysoliad positif cymedrol);
- Newid yn yr hinsawdd a nwyon tŷ gwydr (pwysoliad niwtral);
- Materion eraill (pwysoliad niwtral);
- Effeithiau cronnus a chydgysylltiedig (pwysoliad niwtral);
- Dyluniad da (pwysoliad niwtral).

7.3. Mae'r paragraffau isod yn crynhoi'r pwysoliadau yn y cydbwysedd cynllunio a briodolir i'r materion hynny lle roedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol sylwebaeth a dadansoddiad pellach i'w hychwanegu (gweler paragraffau 4.1 a 4.105 uchod).

7.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi priodoli pwysoliad positif sylweddol i'r achos angen. Priodolodd yr Awdurdod Archwilio bwysoliad positif mawr iawn i'r achos angen. Mae'r gwahaniaeth yn y derminoleg a ddefnyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau cysondeb â'r polisi a nodir yn Natganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 ynghylch priodoli

pwysoliad sylweddol i’r achos angen, ond mae'r casgliadau'n wahanol o ran terminoleg yn unig ac mae'r pwysoliad a briodolir yr un fath ym mhob ystyr arall.

7.5. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi priodoli pwysoliad negatif mawr i’r mater o’r forwedd ac adnoddau gweledol.

7.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi priodoli pwysoliad negatif cymedrol i’r materion canlynol; y dirwedd ac elfennau gweledol; defnydd tir ac amodau'r tir; morgludo a mordwyo; seilwaith a gweithgareddau eraill ar y môr; ac adareg ar y môr.

7.7. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi priodoli pwysoliad negatif bach i’r materion canlynol; sŵn a dirgryndod; a buddiannau hedfanaeth ac amddiffyniad sifil a milwrol.

7.8. Mae gan bob Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol rai effeithiau niweidiol posib. Yn achos y Datblygiad Arfaethedig, mae'r Awdurdod Archwilio wedi asesu nad yw'r rhan fwyaf o'r effeithiau posib yn torri Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1, Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 na Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-5, ar yr amod mewn rhai achosion bod mesurau lliniaru addas yn cael eu rhoi ar waith i'w lleihau neu eu hosgoi'n llwyr fel y bo'n ofynnol o dan bolisi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod y mesurau lliniaru hyn wedi cael eu sicrhau'n briodol.

7.9. Am y rhesymau a roddir yn y llythyr hwn, daw'r Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad y dylid rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod effeithiau niweidiol posib y Datblygiad fel y cânt eu lliniaru gan delerau arfaethedig y Gorchymyn yn drech na'r angen cenedlaethol am y Datblygiad Arfaethedig fel y nodir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol.

7.10. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau bod ystyriaeth wedi'i rhoi i Adroddiad yr Awdurdod Archwilio, y Cynlluniau Datblygu perthnasol, yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a gyflwynwyd ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, y Datganiadau Polisi Cenedlaethol, Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft, Datganiad Polisi Morol y DU (2011), polisïau cenedlaethol perthnasol eraill ac i'r holl faterion eraill yr ystyrir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol fel y bo'n ofynnol o dan adran 104 o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau at ddibenion rheoliad 4(2) o'r Rheoliadau Asesu’r Effeithiau Amgylcheddol fod yr wybodaeth amgylcheddol fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau hynny wedi cael ei hystyried.

7.11. Felly, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu derbyn argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i wneud y Gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu, gan gynnwys yr addasiadau a nodir yn adran 9 o’r ddogfen hon.

## 8. Materion Eraill

<u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u>

8.1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys “dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol” ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu; a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd

warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r “nodweddion gwarchodedig” canlynol: oedran; rhywedd; ailbennu rhywedd; anabledd; priodas a phartneriaethau sifil[2]; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd a chred; a hil.

8.2. Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel y penderfynwr) roi sylw dyledus i nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Rhaid i hyn gynnwys ystyried yr holl effeithiau posib ar gydraddoldeb a amlygwyd yn ystod yr Archwiliad. Gall fod niwed i'r partïon yr effeithir arnynt ond, os oes niwed, rhaid cydnabod hynny a rhaid ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb.

8.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd hon ac nid yw wedi nodi unrhyw bartïon â nodwedd warchodedig y gellid gwahaniaethu yn eu herbyn o ganlyniad i'r penderfyniad i roi cydsyniad i’r Datblygiad arfaethedig.

8.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyderus ei fod, wrth wneud y penderfyniad a argymhellir, wedi rhoi sylw dyledus i'r amcanion uchod wrth ystyried effeithiau posib rhoi neu wrthod cydsyniad, a gall ddod i'r casgliad na fydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar bobl sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Felly, daw'r Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad nad yw rhoi cydsyniad yn debygol o arwain at effaith sylweddol ar gyfle cyfartal na chysylltiadau rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl eraill, na gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unrhyw nodweddion gwarchodedig penodol.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

8.5. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â'r ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn ecosystemau, a drwy wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, cyn belled â bod hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Yn benodol, yn unol ag adran 6(4)(a), dylid rhoi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod Adroddiad yr Awdurdod Archwilio yn ystyried bioamrywiaeth yn unol â'r ddyletswydd hon.

8.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod Adroddiad yr Awdurdod Archwilio, ynghyd â'r Datganiad Amgylcheddol, yn ystyried bioamrywiaeth yn ddigonol i roi digon o wybodaeth iddo yn hyn o beth. Wrth ddod i'r penderfyniad i roi cydsyniad i’r Datblygiad Arfaethedig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw dyledus i warchod bioamrywiaeth.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

8.7. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi dyletswydd gyffredinol cyrff cyhoeddus i roi sylw i'r diben o warchod a gwella harddwch naturiol unrhyw ardal o harddwch naturiol eithriadol, yn unol ag adran 85(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi dyletswydd gyffredinol cyrff cyhoeddus i roi sylw i’r diben o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Parciau Cenedlaethol a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig Parciau Cenedlaethol yn unol ag adran 11A(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn

[2] Mewn perthynas â'r amcan statudol cyntaf (dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac ati) yn unig.

Gwlad 1949. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod y cais wedi rhoi sylw priodol i'r dibenion hynny. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod adroddiad yr Awdurdod Archwilio, ynghyd â'r Datganiad Amgylcheddol a'r cynllun gwella'r dirwedd, yn rhoi digon o wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Awdurdod Archwilio y byddai'r cynllun gwella'r dirwedd yn gwneud iawn am rywfaint o'r niwed i'r dirwedd, y forwedd ac elfennau gweledol a nodwyd ac y byddai'n darparu manteision i dirweddau dynodedig Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri dros y tymor hirach.

Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol

8.8. O 1 Tachwedd 2023 ymlaen, mae dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion i roi sylw dyledus i'r Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau polisi. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i benderfyniadau achosion cynllunio, ac o ganlyniad nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i ystyried wrth ddod i'w benderfyniad ar y cais hwn.

## 9. Addasiadau i'r Gorchymyn drafft

9.1. Ar ôl ystyried y Gorchymyn drafft a ddarparwyd gan yr Awdurdod Archwilio, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud yr addasiadau canlynol i'r Gorchymyn drafft:

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi tynnu Erthygl 19 o'r Gorchymyn drafft, a fyddai wedi caniatáu i'r Ceisydd symud ac ailgladdu gweddillion dynol modern (llai na 100 oed) o fewn terfynau'r Gorchymyn, cyn belled â bod y gwaith symud yn cael cyhoeddusrwydd. Nid oes claddfeydd hysbys o fewn terfynau'r Gorchymyn, felly mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod yr Erthygl hon yn ddiangen. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi tynnu erthyglau tebyg o nifer o orchmynion lle nad oes cyfiawnhad clir dros eu defnyddio. Serch hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried cyfiawnhad y Ceisydd dros gynnwys y ddarpariaeth hon, sydd i bob golwg yn ddadl sy'n seiliedig ar gladdu amlosgi cynhanesyddol posib, na fyddai wedi'i gynnwys o dan Erthygl 19 beth bynnag, oedi a allai gael ei achosi wrth ddelio â'r awdurdodau priodol a honiad efallai mai safbwynt y Ceisydd byddai ein bod yn ei adael i mewn ac yna os bydd yr awdurdod archwilio neu'r ysgrifennydd gwladol yn teimlo nad oes cyfiawnhad drosto, ein bod yn ei ddileu (ISH5). Derbyniodd yr Awdurdod Archwilio y cyfiawnhad hwnnw, ond nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei dderbyn. Dylai fod yn amlwg mai dim ond â gweddillion dynol hysbys y gellir eu hadnabod, fel y rhai mewn claddfa, y gellir rhoi cyhoeddusrwydd iddynt o dan delerau'r Erthygl, y bwriedir i'r ddarpariaeth hon ddelio. Dylid ymdrin ag unrhyw olion dynol archaeolegol yn y cynllun ymchwilio ysgrifenedig. Mae'r Ceisydd wedi cydnabod hyn ac wedi ailddrafftio'r ddarpariaeth i ddelio ag olion modern yn unig. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, am resymau amlwg, yn dymuno i weddillion dynol modern sydd ddim wedi'u cynnwys mewn cofnodion cyhoeddus neu y mae modd eu hadnabod yn hawdd gael eu trin gan yr awdurdodau priodol, yn hytrach na chael eu symud a'u hailgladdu.

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu is-baragraff (2) newydd at ofyniad 2. Mae Tabl 2 yn y gofyniad yn nodi'r paramedrau dylunio ar gyfer y datblygiad. I'r graddau y mae'r rhain yn ymwneud â thyrbinau gwynt, bydd y paramedrau hyn yn cynnwys senario 1 a 2 yn nhabl 3.5 y Datganiad Amgylcheddol. Fodd bynnag, drwy gyfuno'r ddwy senario, gallent awgrymu cyfuniad o baramedrau fyddai'n mynd y tu hwnt i effeithiau'r naill senario neu'r llall. Mae is-baragraff (2) yn sicrhau nad oes modd dibynnu ar y paramedrau hyn i adeiladu datblygiad y mae ei effeithiau amgylcheddol yn fwy na'r rhai a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol ar sail y ddwy senario a aseswyd.

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu Gofynion 27 a 28 at Atodlen 2, i roi cyfrif am fesurau lliniaru'r Gwasanaethau Traffig Awyr ar gyfer Maes Glanio Warton a Maes Glanio Walney yn y drefn honno (gweler paragraff 4.122 uchod).

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu Gofyniad 29 at Atodlen 2, i roi cyfrif am ateb lliniaru Effeithiau Olion rhwng y Ceisydd ac IPs Ørsted a'u ffermydd gwynt alltraeth perthnasol (gweler paragraff 4.87 uchod).

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu is-baragraffau (3) (4) a (5) at Ofyniad 23 mewn perthynas â Phrif Radar Gwyliadwriaeth Maes Glanio Warton (gweler paragraff 4.123 uchod).

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu brawddeg at Amod 17 y Drwydded Forol Dybiedig yn Atodlen 14 i sicrhau cysondeb â'r Gofyniad Effeithiau Olion (29) (gweler paragraff 4.87 uchod).

- Diwygio Erthygl 29(11) i leihau'r cyfnod cynnal a chadw i'r 5 mlynedd arferol o'r dyddiad gweithredu masnachol. Ni ddylid defnyddio pwerau defnydd dros dro i sicrhau hawddfraint ar gyfer oes y prosiect.

- Dileu paragraffau (2) a (3) Erthygl 45 (yn flaenorol) (gofynion, apeliadau ac ati) gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn angenrheidiol a'u bod yn creu amwysedd. Mae Atodlen 12 yn darparu mecanwaith apelio mewn perthynas â phenderfyniadau ar gyflawni gofynion. Nid yw ceisio cymhwyso proses apeliadau adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'r penderfyniadau hyn yn ychwanegu dim, ond bydd yn achosi ansicrwydd cyfreithiol mewn perthynas â'r broses sydd i'w dilyn.

- Dileu Erthygl 47 (yn flaenorol) (Caniatâd cynllunio anghyson) oherwydd nad yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol ac mae'n creu amwysedd posib.

- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu Amod 20(1)(a)(iii) ac Amod 20(7) y Drwydded Forol Dybiedig yn Atodlen 14 mewn perthynas ag ordnans heb ffrwydro (gweler paragraff 4.105 uchod).

9.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu Amod 20(1)(a)(iii) ac Amod 20(7) y Drwydded Forol Dybiedig yn Atodlen 14 mewn perthynas ag ordnans heb ffrwydro (gweler paragraff 4.105 uchod). Yn ogystal â'r uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud newidiadau amrywiol i'r Gorchymyn drafft sydd ddim yn newid ei effaith yn sylweddol, gan gynnwys newidiadau i gydymffurfio â'r arfer presennol ar gyfer offerynnau statudol, newidiadau er budd eglurder a chysondeb a newidiadau i sicrhau cysondeb â Gorchmynion Cydsyniad Datblygu eraill.

## 10. Herio penderfyniad

10.1. Mae'r amgylchiadau lle gellir herio penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

## 11. Cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad

11.1. Mae penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais hwn yn cael cyhoeddusrwydd fel y bo'n ofynnol o dan adran 116 o Ddeddf Cynllunio 2008 a rheoliad 31 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017.

11.2. Mae adran 134(6A) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn dweud y bydd hysbysiad caffael gorfodol yn bridiant tir lleol. Mae adran 134(6A) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad caffael gorfodol gael ei anfon at y Prif Gofrestrydd Tir, a bydd hyn yn wir pan fydd y Gorchymyn wedi'i leoli mewn ardal y mae'r Prif Gofrestrydd Tir wedi rhoi rhybudd ei fod bellach yn cadw'r gofrestr pridiannau tir lleol yn dilyn newidiadau a wnaed gan Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015. Fodd bynnag, pan fydd tir yn y Gorchymyn wedi'i leoli mewn ardal y mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn awdurdod cofrestru ar gyfer pridiannau tir lleol (gan nad yw'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Seilwaith 2015 wedi dod i rym eto), dylai'r darpar brynwr gydymffurfio â'r camau sy'n ofynnol o dan adran 5 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (cyn iddi gael ei diwygio gan Ddeddf Seilwaith 2015) i sicrhau bod y pridiant yn cael ei gofrestru gan yr awdurdod lleol.

Yn gywir,

[redacted]

David Wagstaff OBE

Pennaeth Datblygu Seilwaith Ynni

## ATODIAD A: HERIAU CYFREITHIOL YN YMWNEUD Â CHEISIADAU AM ORCHMYNION CYDSYNIAD DATBLYGU

O dan adran 118 o Ddeddf Cynllunio 2008, dim ond drwy hawliad am adolygiad barnwrol y gellir herio Gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu, neu unrhyw beth gaiff ei wneud, neu na chaiff ei wneud, gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chais am Orchymyn o'r fath. Rhaid gwneud hawliad am adolygiad barnwrol i'r Llys Cynllunio yn ystod cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y cyhoeddir y Gorchymyn neu'r penderfyniad. Mae dogfennau'r penderfyniad yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad y llythyr hwn ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad canlynol:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/

**Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn. Cynghorir unrhyw un sy'n credu y gallai fod ganddo sail dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn y cyfeirir ato yn y llythyr hwn i geisio cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau. Os oes angen cyngor arnoch am y broses o herio'r penderfyniad, dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain, WC2A 2LL (0207 947 6655).**

## ATODIAD B: RHESTR O DALFYRIADAU

| Talfyriad | Cyfeirnod |
|---|---|
| AA | Asesiad Priodol |
| AEoI | Effeithiau Niweidiol ar Gyfanrwydd |
| ALARP | Mor isel ag sy’n rhesymol bosib |
| ATS | Gwasanaethau Traffig Awyr |
| BESS | Strategaeth Diogeledd Ynni Prydain |
| CA | Caffael Gorfodol |
| CoCP | Cod Ymarfer Adeiladu |
| CP2030 | Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 |
| CRDVNL | Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy |
| CROW Act | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy |
| Gynllun Morol y Gogledd-orllewin | North West Inshore and North West Offshore Marine Plan |
| DCO | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu |
| DIO | Sefydliad Seilwaith Amddiffyn |
| DML | Trwydded Forol Dybiedig |
| EIA | Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol |
| ENP | Parc Cenedlaethol Eryri |
| ExA | Yr Awdurdod Archwilio |
| FMA | Cytundeb Lliniaru Fferïau |
| HDD | Drilio Cyfeiriadol Llorweddol |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| IoANL | Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn |
| IoM | Ynys Manaw |
| IoMSPC | Isle of Man Steam Packet Company |
| IP | Parti â Diddordeb |
| IROPI | Am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig |
| JNCC | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| LIR | Adroddiadau ar yr Effaith Leol |
| LSE | Effaith Arwyddocaol Debygol |
| MCA | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| MVOWF | Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin |
| MW | Megawat |
| NE | Natural England |
| NP | Parc Cenedlaethol |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| NPS EN-1 | Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni |
| NPS EN-3 | Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Seilwaith Ynni Adnewyddadwy |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NRW(A) | Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) |

| | |
|---|---|
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| NSN | Rhwydwaith Safle Cenedlaethol |
| OSP | Platfformau Is-orsaf ar y Môr |
| PA2008 | Deddf Cynllunio 2008 |
| PP | Darpariaeth ddiogelu |
| PSED | Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus |
| PSR | Prif Radar Gwyliadwriaeth |
| REWS | Systemau Rhybudd Cynnar Radar |
| RIES | Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd |
| RR | Sylwadau Perthnasol |
| SAC | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| SoCG | Datganiad Tir Cyffredin |
| SPA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SSSA | Cytundeb Gwasanaethau Môr Strategol |
| TCE | Ystad y Goron |
| TCEC | Comisiynwyr Ystad y Goron |
| TCPA | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref |
| TP | Meddiannu Dros Dro |
| UWSMS | Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr |
| UXO | Ordnans heb ffrwydro |
| VP | Golygfan |
| WNMP | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |